



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-19

gov.wales/wra  [@WRAtweet](https://twitter.com/WRAtweet)



Cydweithio | Cadarnhau | Cywiro

Cynnwys

Cynnwys.....	1
Rhagair y Cadeirydd.....	2
Adroddiad ar Berfformiad	3
Adroddiad Atebolrwydd	10
Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff	18
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol.....	32
Cyfrifon Adnoddau.....	38
Datganiad Treth	45
Cyfarwyddiadau Cyfrifon	53
Geirfa	55
Atodiad A.....	56

Cyf LIC WG38294

© Hawlfraint y Goron Llywodraeth Cymru 2019

ISBN 978-1-83876-529-3

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Rhagair y Cadeirydd

Fel y Cadeirydd penodedig cyntaf Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), mae'n anrhydedd gen i gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf.

Fe'n sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 yn barod ar gyfer casglu a rheoli'r trethi Cymreig datganoledig cyntaf o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae ein hadroddiad felly yn cwmpasu cyfnod o 18 mis ac yn adlewyrchu canlyniadau blwyddyn gyntaf ragorol o weithrediadau.

Mae ein pobl, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i gyd wedi chwarae rhan wrth helpu i adeiladu Awdurdod Cyllid Cymru – sefydliad newydd sy'n gwasanaethu Cymru ac adran anweinidogol gyntaf Llywodraeth Cymru. Gyda diolch iddynt hwy, a llawer un arall, y gallwn adrodd am weithrediadau llwyddiannus hyd yma.

Yn ein hadroddiad, rydym yn egluro sut yr ydym wedi ymateb i'r tair blaenoriaeth a nodwyd yn ein Llythyr Cylch Gwaith gan Weinidogion Cymru. Y flaenoriaeth gyntaf oedd sefydlu a chynllunio'r broses o weinyddu casglu trethi datganoledig yng Nghymru, yn enwedig er mwyn galluogi dinasyddion Cymru i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg iawn.

O'r dechrau, gwnaethom gynllunio'r sefydliad a'n prosesau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â threthdalwyr a defnyddwyr ein systemau, er mwyn eu helpu i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf. Gwnaethom weithredu systemau digidol newydd a datblygu canllawiau ar ofynion Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (DCRhT).

Roedd ein hail flaenoriaeth yn cynnwys datblygu ein systemau treth er mwyn helpu i atal, a mynd i'r afael ag osgoi trethi. Rydym wedi creu dull unigryw i Gymru yn hyn o beth, gan ddefnyddio'r syniadau diweddaraf a gorau o bob cwr o'r byd. Rydym wedi bod yn mireinio'r dull hwn ac wrthi'n sefydlu cyfres o fetrigau er mwyn mesur ein cynnydd.

Roedd ein trydedd flaenoriaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus gyda ffocws ar wella'r ffordd y gweinyddir trethiant datganoledig yng Nghymru. Rydym wedi cydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn Nhrysorlys Cymru ac rydym yn parhau i wneud hynny drwy rannu dadansoddiadau data cyfanredol er mwyn llunio a gwella polisi treth Cymru. Mae'r cydweithio hwn yn ffordd bwysig o gysylltu'r gwaith o lunio polisi trethu gyda'r gwaith o'i weithredu.

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn adlewyrchu ein ffocws parhaus ar weithio mewn partneriaeth, sydd wedi nodweddu'n blwyddyn weithredol gyntaf. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi ac i bawb yr ydym yn gweithio â nhw: yn arbennig, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas y Gyfraith, ynghyd â'r gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a'r gweithredwyr gwaredu tirlenwi sy'n defnyddio ein systemau'n ddyddiol.

Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol (2019-2022) sy'n nodi ein diben a'n hamcanion strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i helpu i gefnogi'r broses o ddarparu system drethu deg i Gymru. Ac rydym yn falch o reoli a chasglu refeniw drwy drethi sydd wedi'u cynllunio yng Nghymru, er budd Cymru.

Kathryn Bishop
Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru

Adroddiad ar Berfformiad

Trosolwg y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf ACC, yn cynnwys y trosolwg hwn o'n gweithgareddau. Yn ACC, rydym wedi cael 18 mis o brofiad o gydweithio – gan gasglu'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym wedi adeiladu sefydliad newydd, gan greu timau a datblygu dulliau newydd o weithio gyda'n gilydd, a chydag eraill.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â Rhaglen Gyflawni ACC, a oruchwyliodd ein sefydlu. Ni fyddai ein sefydliad yr hyn ydyw heddiw heb arbenigedd, egni a chefnogaeth cydweithwyr dirifedi yn Llywodraeth Cymru ac ar draws cyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Yn ystod chwe mis cyntaf ein sefydliad, gwelwyd gwir ymrwymiad a chydweithrediad er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein lansiad yn llwyddiannus ar amser ac o fewn y gyllideb ar 1 Ebrill 2018.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cymryd o ddifrif y ddyletswydd o sicrhau bod yr arian cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdano yn cael ei wario'n dda a'n bod yn casglu trethi datganoledig yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ein tîm rheoli

Fyddwn i ddim yn gallu cyflawni'r rôl hon heb gefnogaeth Tîm Arwain ACC. Rwyf i'n aelod, ynghyd â'r:

- Prif Swyddog Strategaeth – Rebecca Godfrey
- Pennaeth Adnoddau Dynol – Melissa Quignon-Finch
- Prif Swyddog Cyllid – Teresa Platt
- Pennaeth Gweithrediadau – Sam Cairns
- Pennaeth Staff – Jo Ryder
- Prif Swyddog Cyfreithiol a Pholisi – Sean Bradley

Mae'r Tîm Arwain yn rhan o'n strwythur llywodraethiant a weithredwyd gennym yn barod ar gyfer Ebrill 2018. Arweinir y sefydliad gan ein Bwrdd gyda chefnogaeth ei bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Pobl), ac mae'r Tîm Arwain yn cael cymorth y Pwyllgor Portffolio Newid a'r Pwyllgor Rheoli Achosion.

Blaenoriaethau a strategaeth

Dan arweiniad y Llythyr Cylch Gwaith gan Weinidogion Cymru, ein blaenoriaethau yn ystod ein blwyddyn gyntaf o weithredu oedd:

- **Ymgorffori *Ein Dull*** – mae hwn yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith i gyd, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n talu treth
- **Deall ein hamgylchedd a'n gweithrediadau** – roedd hyn yn amrywio o'n gweithrediadau i'n cydberthnasau; o'n dealltwriaeth o'n cwsmeriaid i'r gyllideb; o'n perfformiad i brosesau mewnol
- **Gwella ein gallu** – mae hyn wedi canolbwyntio'n arbennig ar ein pobl a'n systemau

Rwy'n falch o'r dulliau arloesol yr ydym wedi'u defnyddio, gan wir ystyried yr hyn yr ydym yn ei wneud, ac ymgysylltu ag eraill er mwyn ein helpu i adeiladu system dreth sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cymru. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu Ein Dull; ein systemau digidol sy'n seiliedig yn y cwmwl, sydd wedi ennill gwobrau; ein ffocws

brwdfrydig ar ymgysylltu â ac ymateb i gwsmeriaid: a'r sylw yr ydym wedi'i roi i ddatblygu mesurau newydd sydd â'r nod o asesu'r system dreth yn ei chyfanrwydd.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi yw'r ymateb cadarnhaol iawn i'n Harolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil cyntaf. Rydym yn sefydliad bychan sydd ag amrywiaeth o sgiliau, a daw'n llwyddiant o ganlyniad i ymrwymiad ac angerdd ein gweithwyr i gyd, rhywbeth a adlewyrchir yng nghanlyniadau ein harolwg staff.

Ar hyn o bryd ni sydd â'r sgôr ymgysylltiad uchaf ond un allan o dros gant o sefydliadau'r gwasanaeth sifil, ac mae sgôr o 85% yn rhywbeth y gallwn ni i gyd ymfalchïo ynddo. Rwy'n arbennig o falch ein bod wedi cael y sgôr uchaf ym meysydd "Cynhwysiant a Thriniaeth Deg" ac "Arweinyddiaeth a Rheoli Newid".

O ran ein perthynas â threthdalwyr ac asiantau, rwyf wedi gweld ymgysylltiad gwirioneddol gadarnhaol ac ystyrlon, a phob un yn symud tuag at greu system drethi sy'n awtomataidd iawn, yn wirioneddol ddigidol ac yn amserol. Diolch i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith.

Rydym wedi cyflawni llawer iawn o waith mewn cyfnod cymharol fyr; gan ddarparu gwasanaethau cyhoeddus newydd sydd fel arfer yn cael eu cyflawni gan sefydliadau llawer mwy. Mae arwain y sefydliad hwn yn ystod ei dymor cyntaf wedi bod yn fraint, ac rwy'n edrych ymlaen at yr her a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Crynodeb o berfformiad

Mae'r data a geir yn y dadansoddiad o berfformiad isod o gymorth i roi cipolwg ar berfformiad ACC a'r trethi datganoledig yn ystod cyfnod y chyfrifon hyn. Mae'r crynodeb hwn yn helpu i egluro pam y mae'r data hwn yn wahanol i'r hyn y gallech ddisgwyl ei weld yn y dyfodol.

Mae cyfrifon cyntaf ACC yn cynnwys y cyfnod sefydlu yn union cyn i ni ddechrau casglu trethi a'r 12 mis cyntaf o gasglu trethi. Felly, mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd gennym yn ystod y 18 mis diwethaf yn wahanol i'r hyn y byddwn yn ei wneud fel arfer yn y dyfodol. Er enghraifft, yn ystod y misoedd cyn 1 Ebrill 2018, roedd ACC yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth i drethdalwyr a'u hasiantau er mwyn iddynt ddeall sut y byddai'r trethi newydd yn gweithio, ynghyd â gwasanaethau er mwyn galluogi busnesau i gofrestru. Ni wnaed unrhyw waith ffeilio ffurflenni na chasglu referniw cyn 1 Ebrill 2018.


Roedd y gwaith a wnaethom yn 2018-2019 yn anarferol hefyd gan ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi rhan gychwynnol y broses o gasglu trethi (llenwi ffurflenni treth a gwneud taliadau) yn hytrach nac ar ddefnyddio methodolegau risg er mwyn nodi meysydd gwallau posibl yn y ffurflenni. Ni ellid llunio proffil risg o'r fath, na'r gweithgarwch lliniaru ac adfer sy'n ei ddilyn, hyd nes bod stoc digonol o ffurflenni treth wedi'u ffeilio. Yn y dyfodol byddem yn disgwyl i'r gwaith risg hwn fod yn rhan sylweddol o weithgareddau ACC ac felly byddwn yn cofnodi ac yn cyhoeddi data i egluro i ba raddau y mae'r gwaith hwnnw wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r gwahaniaethau hyn yn y gwaith sy'n cael ei wneud yn ganlyniad naturiol i lansio sefydliad newydd sy'n gwneud pethau newydd.

Er mwyn cydnabod yr amgylchiadau unigryw hyn, gofynnodd Gweinidogion Cymru i ACC ddatblygu cyfres o fesurau perfformiad yn ystod 2018-2019 yn seiliedig ar ein dealltwriaeth gynyddol o gyflenwi trethi datganoledig yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at y mesurau yr ydym wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019-2022; yma fe welwch fanylion ar sut y gwnaethom ddatblygu ein cyfuniad o fesurau ar gyfer y cyfnod

hwnnw. Rydym wedi gallu casglu data sy'n ymwneud â rhai o'r mesurau hyn o ddechrau 2018-2019. Mae'r data sydd gennym ar y mesurau hyn wedi'u cynnwys yn yr adran dadansoddi perfformiad sy'n dilyn.

Dadansoddi perfformiad


Ffigur 1: Canran y taliadau a dderbyniwyd yn electronig, yn ôl mis derbyn



Mae'r ffigur uchod yn cyfateb i fesur 1.2 yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod ac mae'n cwmpasu'r holl daliadau a wnaed i'r Awdurdod.

Drwy weithio'n agos gydag asiantau trethdalwr rydym wedi gweld gwelliant cyffredinol yn ystod y flwyddyn o ran y gyfran o daliadau a dderbynnir yn electronig, ar gyfer y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi (Ffigur 1).

Ffigur 2: Canran y ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a dderbyniwyd o fewn 31 diwrnod, yn ôl mis y daeth y trafodiad i rym




Dyddiad dod i rym y ffurflen Treth Trafodiadau Tir

Mae'r ffigur uchod yn cyfateb i Fesur 5.1 yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod ac mae'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir yn unig. Yn gyffredinol, y dyddiad dod i rym yw'r dyddiad y bydd yr eiddo'n newid dwylo.

Dengys Ffigur 2 bod lefel amseroldeb o ran derbyn ffurflenni Treth Trafodiadau Tir (h.y. y gyfran a dderbyniwyd o fewn mis i'r dyddiad y daeth y trafodiad i rym) wedi aros yn agos i 100% yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 3: Canran y dyledion Treth Trafodiadau Tir a gasglwyd o fewn 30 diwrnod, yn ôl mis y daeth y trafodiad i rym




Dyddiad dod i rym y ffurflen Treth Trafodiadau Tir

Mae'r ffigur uchod yn cyfateb i fesur 5.2 yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod ac mae'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir yn unig. Yn gyffredinol, y dyddiad dod i rym yw'r dyddiad y bydd yr eiddo'n newid dwylo.

Mae amseroldeb o ran casglu symiau'r Dreth Trafodiadau Tir sydd wedi mynd i ddyled yn y pen draw hefyd yn gwella, yn enwedig yn nau fis olaf y flwyddyn.

Ffigur 4: Canran y ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a dderbyniwyd yn electronig neu ar bapur, yn ôl y mis derbyn




Mis derbyn y ffurflen Treth Trafodiadau Tir

Mae'r ffigur uchod yn cyfateb i fesur 1.1 yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod ac mae'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir yn unig.

Dengys Ffigur 4 bod y gyfradd cyflwyno electronig ar gyfer ein ffurflenni treth wedi amrywio ychydig o gwmpas cyfartaledd o 97%, er bod y mis diwethaf yn dangos gwelliant yn y mesur hwn (sy'n haws ei weld yng nghanran y ffurflenni treth a dderbyniwyd ar bapur), yn dilyn gostyngiad cynharach a arweiniodd at weithredu gan ein tîm gwasanaeth cwsmeriaid. Noder bod ffurflenni'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gyd yn cael eu ffeilio'n electronig a heb eu cynnwys uchod gan nad oes dewis i gyflwyno ffurflen bapur.


Ffigur 5: Canran y trafodiadau sy'n mynd ymlaen yn awtomatig at derfyniad cychwynol* heb unrhyw cam gweithredu gan yr Awdurdod, yn ôl mis derbyn



*Mae'r ffigur uchod yn cynnwys cyflwyniad a thaliad cychwynol (os yn berthnasol) ac nid unrhyw weithred y gall yr Awdurdod ymgymryd â hi yn y dyfodol er mwyn rheoli risg treth. Mae'n cyfateb i fesur 6 yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod ac mae'n cwmpasu pob trafodiad treth.

Dengys Ffigur 5 sut mae ein prosesu awtomatig (h.y. ffurflenni a dderbynnir yn ddigidol, pan fo'r dreth berthnasol yn cael ei dalu heb ymyrraeth) wedi gwella yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cwmpasu'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Ffigur 6: Canran yr ad-daliadau Treth Trafodiadau Tir cyfradd uwch a wnaed o fewn 30 diwrnod i'w cymeradwyo, yn ôl dyddiad cymeradwyo



Mae'r ffigur uchod yn cyfateb i Fesur 5.3 yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod.

Fel y dangosir yn Ffigur 6, mae'r amser prosesu (o'r gymeradwyaeth i'r taliad) ar gyfer ad-daliadau cyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir wedi cwrdd â tharged ACC o dalu o fewn 30 diwrnod ers haf 2018 (pan dderbyniwyd y ceisiadau arwyddocaol cyntaf). Mae nifer gyfartalog y diwrnodau ar gyfer prosesu wedi bod oddeutu pum diwrnod ar gyfer ail hanner y flwyddyn.

Yr ydym yn ymwybodol bod cyrraedd y targed hwn yn y dyfodol yn debygol o fod yn fwy heriol gan y disgwylir y bydd nifer yr ad-daliadau'n cynyddu, a chydabyddwn hefyd y dylai'r Mesur gynnwys rhywfaint o wybodaeth am yr amser a gymerir i gymeradwyo'r ad-daliad yn y lle cyntaf, y byddwn yn anelu at ei ychwanegu yn y flwyddyn i ddod.

Adborth defnyddwyr

Yn ystod 2018-2019, gofynnwyd cwestiynau cyffredinol i'n defnyddwyr yn ymwneud â sgoriau gwasanaeth a rhwyddineb ein gwasanaethau. Mae defnyddwyr yn teimlo bod ein gwasanaethau yn hygyrch, ac mae data dros y flwyddyn yn dangos cyfartaledd o tua 75% o ymatebwyr yn graddio ein gwasanaethau'n rhagorol neu dda, a thua 60% yn gweld ein gwasanaethau'n hawdd neu'n hawdd iawn i'w defnyddio.

Perfformiad Ariannol

Cyfrifon Adnoddau

Sefydlwyd ACC ar 18 Hydref 2017 ac mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn ar gyfer y cyfrifon adnoddau yn cwmpasu'r cyfnod 18 Hydref 2017 hyd 31 Mawrth 2019. Roedd costau refeniw sefydlu cychwynnol o £1.44 miliwn ar gyfer y cyfnod 18 Hydref 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 yng nghyfrifon 2017-2018 Llywodraeth Cymru. Roedd y gwariant yn 2018-19 yn is na'r gyllideb o £6 miliwn a ddyfarnwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru. Y prif reswm am hyn oedd bod costau staff yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd, gan fod rhai aelodau o staff wedi cael eu recriwtio'n ddiweddarach na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn yr adran Cyfrifon Adnoddau ar dudalennau 38 i 44.

Trethi datganoledig

Dengys y tabl isod y refeniw treth yn net o ad-daliadau. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Datganiad Treth ar dudalennau 45 i 52.

	2018-19 £000
Treth Trafodiadau Tir	227,846
Treth Gwarediadau Tirlenwi	44,433

Mae'r weithdrefn i drosglwyddo refeniw treth i Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i sefydlu'n dda, gyda refeniw'n cael ei drosglwyddo yn unol â phrosesau y cytunwyd arnynt. Canfu asesiad archwilio mewnol o'n proses o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer casglu trethi, gan gynnwys y systemau Cyllid a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru, y gellid rhoi sicrwydd 'sylweddol' ar y maes hwn.

Dyfed Alsop

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
2 Gorffennaf 2019

Adroddiad Atebolrwydd

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 33 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (DCRhT), caiff Prif Weithredwr ACC ei ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu, a chanddo gyfrifoldebau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyfrifon, datganiad treth a chyllid ACC. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau ACC, fel nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

O dan Adrannau 29(1)(b) a 30 (1) o DCRhT, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo ACC i baratoi cyfrifon a datganiad treth ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi er mwyn: rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, a'r llifau arian parod; a datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm berthnasol na chafodd ei ddefnyddio i'r dibenion y'i bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru neu drafodiadau perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu yn benodol:

- Ufuddhau i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas ar sail gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Nodi os dilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u nodwyd yn FReM neu ddim, gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, fel cyfanwaith, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys, ac yn ddealladwy

Bydd y datganiad treth yn cael ei baratoi er mwyn:

- Dangos y symiau sy'n dderbyniadwy o'r casglu trethi, o gosbau ac o incwm arall, unrhyw ddiidyniadau a ganiateir, a symiau a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn unol ag adran 25 o DCRhT
- Rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa fel ag yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, a'r llifau arian
- Datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm perthnasol na chafodd ei ddefnyddio i'r dibenion y'i bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru neu drafodiadau perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Dyfed Alsop
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
2 Gorffennaf 2019

Datganiad llywodraethiant

Cyfrifoldebau a Fframwaith Llywodraethiant

Sefydlwyd ACC ar 18 Hydref 2017 o dan DCRhT i gasglu dwy dreth ddatganoledig: Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n disodli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Tirlenwi, yn y drefn honno, yng Nghymru. ACC yw'r adran anweinidogol gyntaf o'r llywodraeth i'w chreu gan Lywodraeth Cymru, wedi'i staffio gan weision sifil â chefnogaeth a goruchwyliaeth Bwrdd annibynnol, sy'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae ein strwythur, ein polisïau, a'n gweithdrefnau cyfundrefnol wedi'u sefydlu yn unol â 'Chod ymarfer ar gyfer llywodraethu corfforaethol o fewn adrannau'r llywodraeth ganolog' y DU. Mae ein harweinyddiaeth yn gyson â'r swyddi a chyfrifoldebau disgwylidig ar gyfer uwch reolwyr; mae gweithdrefnau ategol ar waith er mwyn sicrhau y gall swyddogaethau'r Bwrdd weithredu'n effeithiol; mae ein llwybrau adrodd yn glir er mwyn sicrhau bod atebolrwydd a rheolaethau mewnol allweddol ar waith; caiff cydnabyddiaeth ariannol ei hystyried gan Bwyllgor Pobl y Bwrdd, dan arweiniad Aelodau Anweithredol er mwyn sicrhau annibyniaeth. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n rhanddeiliaid allweddol er mwyn cynnal perthynas waith adeiladol.

Y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae Bwrdd ACC yn cynnwys Cadeirydd Anweithredol, pum Aelod Anweithredol, Prif Weithredwr a dau Aelod Gweithredol sydd hefyd wedi'u cyflogi gan ACC. Yn ystod hydref 2018, penodwyd Aelod Staff Etholedig drwy bleidlais cyflogeion. Penodir yr Aelodau Anweithredol gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i ACC, ac yn gofyn am sicrwydd bod ei swyddogaethau statudol yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon. Cyhoeddodd y Bwrdd ei [gylch gorchwyl](#) ar 21 Mawrth 2018.

Drwy ei Gadeirydd, mae'r Bwrdd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau y cytunodd ACC arnynt, fel y nodir yn y [Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol](#) a'i adlewyrchu yng Nghynllun Corfforaethol ACC a gytunwyd gan y Gweinidog.

Mae pob aelod o'r Bwrdd wedi mynd drwy broses sefydlu drylwyr ac mae cymorth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gael mewn grwpiau neu fel unigolion. Mae Aelodau'r Bwrdd a'r staff i gyd yn cwblhau datganiad gwrthdrawiad buddiannau sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Datgelir yr holl Drafodiadau Partïon Cysylltiedig yn Nodyn 7 y chyfrifon adnoddau. Dangosir presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau (18 Hydref 2017 i 31 Mawrth 2019) yn y tabl sy'n dilyn.

Enwau Aelodau'r Bwrdd	Bwrdd	ARAC	Pwyllgor Pobl
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd	14	7	3
Aelodau Anweithredol			
Kathryn Bishop (Cadeirydd)	14	1 (fel sylwedydd)	3
Jocelyn Davies	14	7	3
Dyfed Edwards	14	Amh	3
David Jones (aelod o ARAC ers Mehefin 2018)	12	4	Amh
Lakshmi Narain	14	7	Amh
Martin Warren	12	7	Amh
Aelodau Gweithredol:			
Dyfed Alsop (Prif Weithredwr)	14	7	3
Sean Bradley (Prif Swyddog Cyfreithiol a Pholisi)	14	Amh	Amh
Rebecca Godfrey	12	Amh	Amh
 (Prif Swyddog Strategaeth)			
Aelod Staff Etholedig			
Lucy Robinson (ers mis Hydref 2018)	3	1 (fel sylwedydd)	1 (fel sylwedydd)

Gweithgaredd y Bwrdd

Roedd busnes y Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys:

- Cytuno ar ei gylch gorchwyl a'i reolau sefydlog
- Cytuno ar strwythur ei bwyllgorau a dirprwyaeth pwerau
- Datblygu datganiad o ddiben, strategaeth, a Siarter ACC
- Sefydlu trefniadau partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cytuno ar Ddogfen Fframwaith
- Ystyried y perfformiad o weithgareddau allweddol, datblygu prosiectau, a derbyn diweddariadau rheolaidd, sicrwydd ac adroddiadau gan Bwyllgorau
- Cyfrannu at, a chytuno ar, Gynllun Corfforaethol 2018-2019 a 2019-2022

Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd, dan arweiniad y Cadeirydd, o'r farn bod ei waith o ddarparu llywodraethiant, cyfarwyddyd, a goruchwyliaeth yn bwysig i lwyddiant y sefydliad. Trafododd a chytunodd y Bwrdd ar ei sail weithredu, a chyfarfu'r Cadeirydd â phob aelod o'r Bwrdd yn unigol o leiaf ddwywaith yn ystod y cyfnod er mwyn trafod perfformiad. Ymhlith mesurau eraill, dangoswyd ymrwymiad cryf a gwelwyd tystiolaeth o hynny drwy bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd Bwrdd, Pwyllgorau a chyfarfodydd eraill.

Adolygodd y Bwrdd ei berfformiad cyfunol yn ystod y flwyddyn, a daeth i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n effeithiol er bod rhai gwelliannau i'w gwneud, rhywbeth sy'n anochel ar gyfer sefydliad newydd. Roedd yr adolygiad hefyd yn asesu ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd gan ddod i'r casgliad ei fod yn effeithiol ar y cyfan.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Sefydlwyd y Pwyllgor gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2017 er mwyn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu (y Prif Weithredwr) drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar lywodraethiant, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli, a'r adroddiad blynyddol a chyfrifon. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gywirdeb gwybodaeth ariannol a bod systemau rheoli risg yn gadarn ac yn amddiffynadwy.

Aelodau Anweithredol yn unig sy'n rhan o'r Pwyllgor, ond mae'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid hefyd yn mynychu cyfarfodydd. Mae Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd, ac mae Cadeirydd ARAC yn crynhoi ei waith ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Paratôdd y Pwyllgor adroddiad blynyddol am ei weithgaredd, a chyflwynwyd hwnnw i'r Bwrdd.

Ers ei sefydlu, mae ARAC wedi ystyried y materion canlynol:

- Cylch Gorchwyl ARAC
- Y fframwaith rheoli risg, gan gynnwys y gofrestr risg gorfforaethol a'r gwaith o ddatblygu Datganiad Archwaeth Risg y Bwrdd
- Cynnydd gan y weithrediaeth o ran gweithredu polisiau, gweithdrefnau, a rheolaethau mewnol
- Trefniadau archwilio mewnol gan gynnwys cynlluniau, adroddiadau o aseiniadau a chynnydd gan y weithrediaeth wrth weithredu camau y cytunwyd arnynt
- Seibrddiogelwch a llywodraethiant gwybodaeth
- Paratodau ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r chyfrifon, a chynllun archwilio Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o'i effeithiolrwydd yn ystod y cyfnod. Roedd y dull yn cynnwys holiadur dienw yn seiliedig ar restr wirio effeithiolrwydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer pwyllgorau archwilio, sy'n adlewyrchu egwyddorion Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys ei Mawrhydi. Trafododd y Pwyllgor ganlyniadau'r adolygiad a chytunodd â chanfyddiadau'r adolygiad fod ARAC, er yn ei fabandod, yn gweithredu'n effeithiol.

Pwyllgor Pobl

Sefydlwyd y Pwyllgor Pobl gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2018. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Bwrdd gyda'i gyfrifoldebau am faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth ariannol, telerau staff, recriwtio, rheoli perfformiad a rheoli talent. Yn benodol, mae'n adolygu, yn cadarnhau ac yn darparu sicrwydd ynglŷn ag ystod o bolisiau ACC sy'n ymwneud â chyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol, darparu buddion megis pensiynau a lwfansau, taliadau terfynu a thaliadau diswyddo, a chynigion recriwtio a chydabyddiaeth ariannol ar gyfer swyddogaethau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), a newidiadau i delerau cytundebol staff.

Aelodau Anweithredol yn unig sydd ar y Pwyllgor. Mae Pennaeth yr Adran Adnoddau Dynol yn mynychu pob cyfarfod. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd, ac mae'r Cadeirydd yn crynhoi gwaith y pwyllgor ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

Ers ei sefydlu, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y materion canlynol:

- Cylch gorchwyl y Pwyllgor Pobl
- Achrediad Cyflog Byw
- Canllawiau cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil
- Llesiant
- Lleoliad ACC

- Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Archwilio mewnol

Penodwyd Llywodraeth Cymru gan ACC i ddarparu Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IAS) ac mae'r rhain yn gweithredu yn ôl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Ymgwymerwyd â rhaglen lawn o waith archwilio yn ystod y cyfnod adrodd, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau a oedd yn wynebu'r sefydliad, ac wedi'i lywodraethu gan Gynllun Archwilio y cytunwyd arno ym mis Chwefror 2018. Cyflwynodd Archwilio Mewnol adroddiadau rheolaidd i ARAC ar y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun archwilio hwn.

Bu Archwilio Mewnol yn cydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, a chyda'i gilydd roedd y ddwy ffynhonnell sicrwydd annibynnol yn rhoi cryn gysur i'r Swyddog Cyfrifyddu, o ran dibynadwyedd y chyfrifon ariannol yn achos Swyddfa Archwilio Cymru, ac o ran gweithrediad y fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheoli yn achos Archwilio Mewnol.

Yn Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol, y farn gyffredinol a roddwyd o ran sicrwydd oedd:

Gall y rheolwyr fod â sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, i reoli risg, ac i reoli'n fewnol, o fewn y meysydd sy'n cael eu hadolygu, wedi eu cynllunio'n briodol a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae angen i'r rheolwyr roi sylw i rai materion o ran dylunio rheolaeth neu gydymffurfio, ac mae iddynt risg gymedrol hyd nes y caiff hynny ei ddatrys.

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio, sy'n sail i'r farn sicrwydd gyffredinol a roddwyd, y barnau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Adolygiad o un pen i'r llall o'r System Dreth (Barn Sicrwydd Sylweddol)
- Fframwaith Llywodraethiant (Barn Sicrwydd Rhesymol)
- Diogelu data trethdalwyr (Barn Sicrwydd Rhesymol)
- Cynlluniau Parhad Busnes (Barn Sicrwydd Rhesymol)
- Prosesau i sicrhau cydymffurfiaid â TGT a TTT (Barn Sicrwydd Rhesymol)

Ni chafwyd dosbarthiad "cyfyngedig" neu "dim sicrwydd" yn unrhyw un o'r adroddiadau archwilio unigol. Lle nodwyd gwendidau mewn adroddiadau archwilio, gwnaed arsylwadau priodol er mwyn gwella'r fframwaith rheoli a mynd i'r afael â'r mater a nodwyd

Rheoli Risg

Fframwaith rheoli risg

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod gan ACC system rheoli risg gadarn ar waith, ac mae wedi sefydlu a dirprwyo awdurdod i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg er mwyn helpu gyda hynny. Trwy ARAC, datblygodd y Bwrdd Ddatganiad Archwaeth Risg sy'n rhoi arweiniad i reolwyr ar lefel y risg y mae'r Bwrdd yn ei hystyried yn dderbyniol wrth gyflawni strategaeth ACC.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol am reoli risg yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, ac mae'n rhoi arweiniad ar drafodaethau ynglŷn â risgiau strategol yn y cyfarfodydd Tîm Arwain misol. Y Tîm Arwain sy'n cynnal y Gofrestr Risg Gorfforaethol, sydd hefyd yn eitem sefydlog yn

ARAC. Mae aelodau Tîm Arwain yn berchen ar risgiau unigol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y mae risgiau wedi esblygu ac am addasrwydd mesurau lliniaru risg.

Mae Strategaeth Rheoli Risg wedi'i pharatoi sy'n esbonio dull ACC o reoli risg ac yn cofnodi'r fframwaith rheoli risg. Wrth ddatblygu fframwaith rheoli risg, mae ACC wedi defnyddio canllawiau'r 'Llyfr Oren - Rheoli risg – Egwyddorion a Chysyniadau', a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru '.

Proffil Risg Strategol

Rheolodd ACC nifer o risgiau strategol yn ymwneud â gweithgareddau corfforaethol a chasglu treth. Yn gryno, roedd y rhain yn cynnwys:

- Fel sefydliad newydd rydym wedi datblygu ein dull ein hunain o gasglu trethi a byddwn yn parhau i egluro hyn yn glir er mwyn sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ymgorffori. Cafodd y dull ei egluro yn ein Cynllun Corfforaethol newydd, wrth i ni ymgysylltu â chwsmeriaid, ac yn ein sesiynau briffio gyda rhanddeiliaid eraill.
- Mae cael y bobl a'r sgiliau iawn yn hanfodol os ydym am gyflawni ein dull o weithredu. Mae'r rhan fwyaf o'r recriwtio bellach wedi'i gwblhau a bydd strwythur y sefydliad yn parhau i gael ei fonitro.
- Mae rheoli'r galw ar ein gwasanaethau mewn perthynas â'n hadnoddau yn golygu bod angen i ni fod yn rhagweithiol wrth nodi lle bydd y galw hwn yn digwydd. Mae gan y Tîm Arwain waith blaenoriaethu a chynllunio rheolaidd er mwyn ymateb i ddatblygiadau. Mae cyswllt rheolaidd â Llywodraeth Cymru yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau'r dyfodol.
- Mae sicrhau ein bod yn gallu darparu systemau digidol sefydlog, effeithiol yn arbennig o bwysig gan mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i gwsmeriaid yn aml. Mae ystod o drefniadau diogelwch a phrofion TG wedi'u sefydlu. Mae trefniadau rheoli newid ehangach wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod systemau newydd yn cael eu cynllunio'n effeithiol, a bod newidiadau i systemau'n cael eu profi a'u gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig.
- Mae cynnal diogelwch ac uniondeb data trethdalwyr Cymru a gesglir gennym hefyd yn flaenoriaeth allweddol. Mae ystod o reolaethau a chanllawiau ar waith o ran diogelwch gwybodaeth, seibrddiogelwch a diogelwch ffisegol er mwyn sicrhau bod data yn cael ei diogelu a bod ACC yn cyflawni ei rwymedigaethau rheoliadol.

Holiadur Rheolaeth Fewnol Blynyddol a Datganiadau Sicrwydd a ddarparwyd i'r Swyddog Cyfrifyddu

Gofynnodd y Swyddog Cyfrifyddu i'r Tîm Arwain lunio Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ) ac, ar sail hyn, i ddarparu datganiad o sicrwydd gydag asesiad o effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol ACC. Drwy'r ICQ, darparodd aelodau'r Tîm Arwain eu hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg, ynghyd â'u hystyriaethau o ran pa mor effeithiol yr oedd rheolaethau wedi gweithredu yn ystod y cyfnod adrodd yn eu barn nhw. Mynychodd y Swyddog Cyfrifyddu gyfarfod archwilio gyda'r Tîm Arwain er mwyn ystyried y sicrwydd a oedd ar gael o ran y cyfnod adrodd. Roedd y rhain yn cynnwys sicrwydd cadarnhaol o ran y prif weithgareddau a swyddogaethau yr ymgwymerwyd â nhw. Ni chanfuwyd unrhyw wendidau rheoli sylfaenol yn ystod y cyfnod adrodd.

Hefyd, ceisiodd a derbyniodd y Swyddog Cyfrifyddu sicrwydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r swyddogaethau dirprwyedig sy'n ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (a chan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u darpariaeth o Gydwasanaethau Adnoddau Dynol).

Llywodraethiant Gwybodaeth

Mae gennym Strategaeth Rheoli Gwybodaeth sy'n egluro ein dull o reoli gwybodaeth yn effeithiol. Ategir hyn gan bolisiâu a chanllawiau pellach ar gyfer y staff i gyd, gan gynnwys Polisi Rheoli Gwybodaeth a Pholisi Llywodraethiant.

Mae gan ACC Swyddog Diogelwch TG (ITSO) sy'n arwain ar reoli'r risgiau gwybodaeth o ddydd i ddydd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch gwybodaeth. Rydym ni a Llywodraeth Cymru yn rhannu Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) fel ateb pragmatig i'r ffaith bod gennym rai llwyfannau digidol yn gyffredin, a bod angen i ni gynnal diogelwch digidol ar gyfer y ddau sefydliad ar draws y llwyfannau hynny.

Rydym hefyd yn rhannu Swyddog Diogelu Data (DPO) gyda Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cyngor annibynnol, gan ein helpu i fonitro cydymffurfiaeth fewnol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 (GDPR). Yn fwyaf arbennig, mae'n rhoi cyngor ar benderfyniadau sy'n gysylltiedig â diogelu data ac achosion o fynediad anawdurdodedig at ddata er mwyn profi penderfyniadau adrodd a'r ffordd yr ydym yn gweithredu camau dilynol. Darparodd y DPO adroddiad a sylwebaeth ar y gweithgareddau a gyflawnwyd ganddi ers i Ddeddf Diogelu Data 2018 ddod i rym. Roedd hyn hefyd yn cadarnhau na dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol gan unrhyw wrthrych data a oedd yn ymwneud â'r defnydd o'u data gan ACC. Nid oedd y DPO wedi derbyn unrhyw ohebiaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch diogelu data yn ACC ychwaith.

Ni chafwyd unrhyw achosion llwyddiannus o dorri ein hamddiffyniadau TG na cholledion data cysylltiedig. Cynhyrchir adroddiadau chwarterol ar bob ymgais i gael mynediad anawdurdodedig at ddata a digwyddiadau diogelwch eraill ar gyfer y Tîm Arwain ac ARAC. Mae sicrwydd diogelwch ACC yn cynnwys cyfres o asesiadau risg sy'n dilyn canllawiau'r Ganolfan Seibrddiogelwch Genedlaethol (NCSC) ac egwyddorion ISO27001 ac ISO27002. Y fethodoleg rheoli risg benodol yw Safon Sicrwydd Gwybodaeth HMG 1 & 2. Mae ACC yn cydweithio'n agos â NCSC i adolygu'r broses o asesu risg sicrwydd diogelwch a byddwn yn derbyn eu cyngor ar fanteision sicrhau achrediad Cyber Essentials Plus.

Cafodd ACC 13 achos o fynediad anawdurdodedig at ddata yn ystod 2018-2019, y rhan fwyaf ohonynt yn chwarteri dau a thri ac yn gymharol fach. Atgyfeiriwyd dau achos cysylltiedig o gael mynediad anawdurdodedig at ddata i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac roeddent yn fodlon â'r camau lliniaru a gymerwyd gennym a chaewyd yr achosion heb gosb.

Ym mis Ionawr 2019, cwblhawyd aseiniad archwilio mewnol a oedd yn ystyried diogelu data trethdalwyr a chafwyd sicrwydd rhesymol.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:

Cawsom bum Cais Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd, ac ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith. Gyda thri o'r ceisiadau, roeddem yn gallu darparu rhywfaint o'r wybodaeth y gofynwyd amdano. Yn yr achosion eraill roedd gwybodaeth yn esempt o'r gofynion datgelu. Cynhaliwyd adolygiad mewnol gennym o ymateb yn dilyn cais. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd yr ymdriniwyd â cheisiadau am wybodaeth ac ni chafwyd unrhyw ymchwiliadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Chwythu'r Chwiban

Mabwysiadodd ACC bolisi chwythu'r chwiban Llywodraeth Cymru dros dro, ac yna, yn ystod y cyfnod, datblygodd gynigion a threfniadau ategol er mwyn bodloni ei amgylchiadau penodol. Ni chafwyd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod adrodd.

Y Gymraeg

Sefydlwyd ACC fel sefydliad dwyieithog sy'n galluogi ac yn cynorthwyo ei gwsmeriaid i gynnal eu busnes yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gall cwsmeriaid gynnal pob agwedd o'u busnes gyda ACC yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae pob un canllaw a gyhoeddir gennym, yn ogystal â'n holl wybodaeth a'n systemau ar gael yn y ddwy iaith ac mae gennym dîm gwasanaethau cwsmeriaid ymroddedig a rhugl wrth law i ddelio ag unrhyw ymholiadau.

Rydym yn mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac annog unigolion i weithio gyda ni yn Gymraeg. Er enghraifft, mae ein gwasanaethau digidol wedi'u cynllunio fel eich bod yn gallu symud yn hawdd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwasanaethau ar-lein. Golyga hyn y gall pobl a allai fod â diffyg hyder yn y Gymraeg newid i'r Saesneg ac yn ôl drwy'r ffurflen yn ôl yr angen.

Mae gan yr iaith Gymraeg statws cyfartal o fewn ACC, ac rydym yn hyrwyddo ac yn annog defnydd ohoni yn y Swyddfa, yn ogystal â chynnig cyfleoedd hyfforddiant i staff. Credwn yn gryf y bydd meithrin y diwylliant iawn o fewn ACC yn cyfrannu at wella'n gwasanaethau i'r cyhoedd.

Fel adran newydd, nid oes gennym safonau'r Gymraeg ein hunain ac felly, fel rhan o sicrhau gwasanaethau Cymraeg da, rydym yn cydymffurfio'n wirfoddol â safonau Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n gymesur. Rydym wedi dechrau trafod gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch datblygu safonau sy'n addas ar gyfer ACC.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Er nad yw ACC wedi'i restru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gofynnodd Gweinidogion Cymru i ni weithio ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ehangach er mwyn cyfrannu at a gweithio tuag at hyrwyddo nodau'r Ddeddf. Wrth ddatblygu Ein Dull (sy'n llywio popeth a wnawn) rydym wedi ymgorffori ysbryd ac ymdeimlad y Ddeddf a byddwn yn parhau i geisio ymgorffori'r Ddeddf yn holl ganlyniadau ein polisïau.

Dyfed Alsop

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
2 Gorffennaf 2019

Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Cytundebau Gwasanaeth

Mae cyflogeion ACC yn weision sifil. Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodi aelodau o'r gwasanaeth sifil ar sail teilyngdod, mewn cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Mae gan yr uwch swyddogion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau penagored gyda'u hadrannau gwasanaeth sifil cartref. Ar 31 Mawrth 2019, roedd yr uwch swyddogion a gwmpaswyd gan yr adroddiad hwn i gyd wedi'u benthg o adrannau eraill y gwasanaeth sifil er mwyn gweithio gyda ACC. Pe bai terfyniad cynnar gan unrhyw un o'r adrannau cartref hynny, ac eithrio am gamymddwyn, byddai'r unigolyn yn cael iawndal yn unol â'r hyn a nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk.

Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

Nid yw cydnabyddiaeth ariannol aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) wedi'i ddirprwyo, yn wahanol i gydnabyddiaeth ariannol staff sydd islaw'r SCS. Mae hyn yn golygu bod ACC yn gweithredu tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil yn unol â'r rheolau a nodir ym Mhennod 7.1, Atodiad A o God Rheoli'r Gwasanaeth Sifil a chanllawiau blynyddol a gynhyrchir gan Swyddfa Cabinet y DU, yn dilyn argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB). Wrth wneud ei argymhellion, rhaid i'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion roi sylw i'r ystyriaethau canlynol:

- Yr angen i recriwtio, cadw a chymell, a, lle bo'n berthnasol, hybu pobl addas, abl, a chymwys i gyflawni eu gwahanol gyfrifoldebau
- Yr amrywiaethau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff
- Polisiâu'r llywodraeth ar gyfer gwella'r gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar i adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
- Yr arian sydd ar gael i adrannau fel y'i nodir yn nherfynau gwariant adrannol y lywodraeth
- Targed chwyddiant y lywodraeth
- Y dystiolaeth a dderbynnir ganddynt ynglŷn ag ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd eu hargymhellion

Gellir cael rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn <https://www.gov.uk/government/organisations/review-body-on-senior-salaries>.

Mae Pwyllgor Pobl ACC, dan gadeiryddiaeth Aelod Anweithredol, yn gyfrifol am argymell penderfyniadau ar gyflogau uwch yn flynyddol, neu yn ôl y gofyn. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol cael ei drin yn deg ac yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Pwyllgor, yn ystod y cyfnod, wedi dewis alinio ei ddull gydag un Llywodraeth Cymru yn fras, sydd â rhywfaint o hyblygrwydd i weithredu o fewn y canllawiau a bennwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Er enghraifft, nid yw ACC wedi gwneud unrhyw daliadau bonws yn gysylltiedig â pherfformiad i aelodau'r SCS yn ystod 2017-2018 neu 2018-2019.

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i staff islaw'r SCS o fewn ACC yn adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru. Gellir cael rhagor o wybodaeth am bolisi cyflog Llywodraeth Cymru yn <https://gweddiill.gov.wales/docs/hrd/publications/180525-Pay-Policy-Statement-Cy.pdf>.

Mae Aelodau Anweithredol Bwrdd ACC yn derbyn ffioedd am ddyletswyddau a gyflawnir ar ran ACC, megis mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau. Telir y ffioedd ar gyfradd ddyddiol fel y nodir yn eu llythyrau penodi, ac maent fel a ganlyn:

	Cyfradd Ddyddiol (£)
Cadeirydd Anweithredol	400
Is-gadeirydd Anweithredol	350
Aelod Anweithredol	300

Caiff costau a ysgwyddir wrth iddynt wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn eu had-dalu hefyd.

Datgeliad Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r adran ganlynol yn darparu gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn uwch reolwyr ACC, sef aelodau'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys Aelodau Anweithredol ac uwch swyddogion, ond nid yw'n cynnwys aelod Aelod Staff Etholedig y Bwrdd.

Mae'r cyflog yn cynnwys y symiau pensiynadwy ac amhensiynadwy ac mae'n cwmpasu cyflogau gros, goramser, lwfansau recriwtio a chadw, neu lwfansau neu daliadau eraill i'r graddau eu bod yn ddarostyngedig i drethiant y DU, ac unrhyw daliadau diswyddo neu ex-gratia. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliadau am gostau a ysgwyddir yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau unigolyn. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronodig a wnaed gan ACC, ac wedi'u cofnodi felly yn y chyfrifon hyn.

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan ACC ac y mae Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy.

Er mwyn cydbwysu gofynion adrodd yn erbyn preifatrwydd unigol, yn y rhan fwyaf o achosion rydym yn adrodd ffigurau cydnabyddiaeth ariannol mewn bandiau o £5,000 (er enghraifft, £65,000-£70,000).

Cydnabyddiaeth Ariannol Anweithredol

Y ffioedd a dalwyd am y cyfnod 18 Hydref 2017 hyd at 31 Mawrth 2019 ar gyfer Aelodau Anweithredol oedd:

Aelodau Anweithredol	Ffioedd £000
Kathryn Bishop Cadeirydd Anweithredol	35-40
Dyfed Edwards Dirprwy Gadeirydd Anweithredol (o 20 Gorffennaf 2018) Aelod Anweithredol (hyd 19 Gorffennaf 2018)	25-30
Jocelyn Davies Aelod Anweithredol	10-15
David Jones Aelod Anweithredol	20-25
Lakshmi Narain Aelod Anweithredol	15-20
Martin Warren Aelod Anweithredol	10-15 ¹²

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Yn ogystal â'u ffioedd, pan fydd Aelodau Anweithredol yn ysgwyddo costau teithio a threuliau eraill wrth fynychu cyfarfodydd sy'n ofynnol yn eu rôl gyda ACC, mae ganddynt hawl i ad-daliad o dan Bolisi Ffioedd a Threuliau ACC. Mae ACC yn talu'r rhwymedigaeth dreth sy'n deillio o'r ad-daliad.

Nid yw Aelodau Anweithredol yn cael eu cyflogi gan ACC ac nid ydynt yn cael buddion pensiwn gan ACC.

Cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn uwch swyddogion

Y ffigurau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y cyfnod 18 Hydref 2017 hyd at 31 Mawrth 2019 ar gyfer uwch swyddogion oedd:

	Cyflog £000	Buddion pensiwn³	Cyfanswm £000
Dyfed Alsop⁴ Prif Weithredwr	135-140	71,000	205-210
Rebecca Godfrey Prif Swyddog Strategaeth	100-105	66,000	165-170
Sean Bradley Prif Swyddog Cyfreithiol a Pholisi (o 04/12/17)	90-95	33,000	125-130

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

¹ Gwnaed taliad o £81.43 i Martin Warren ym mis Mawrth 2019 fel arwydd o ewyllys da mewn perthynas â'r driniaeth dreth ychwanegol a gymhwyswyd pan dalwyd sawl taliad hwyr am gyfnod Awst 2017–Mawrth 2018 yn Chwefror–Ebrill 2018.

² Gwnaed gordaliad o £1,933.20 i Martin Warren ym mis Rhagfyr 2017 mewn camgymeriad. Ad-dalwyd hyn yn rhannol ym mis Mawrth 2019, a chafodd gweddill y swm (£411.96) ei ad-dalu ym mis Ebrill 2019.

³ Talgrynnir buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf. Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi â 20 wedi tynnu'r cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

⁴ Gwnaed gordaliad o £608.28 mewn treuliau anhrethadwy i Dyfed Alsop ym Mehefin 2018 mewn camgymeriad. Cafodd hwn ei ad-dalu ym mis Mai 2019.

Roedd y buddiannau mewn nwyddau a aseswyd yn 2018-19 a 2017-18 yn ddim.

Talwyd cyflogau i uwch-swyddogion yn y bandiau canlynol:

	Cyflog 2018-19	Cyflog 2017-18 (o 18 Hydref 2017)
	£000	£000
Dyfed Alsop Prif Weithredwr	95-100	40-45 (FYE 90-95)
Rebecca Godfrey Prif Swyddog Strategaeth	70-75	30-35 (FYE 65-70)
Sean Bradley Prif Swyddog Cyfreithiol a Pholisi (o 4 Rhagfyr 2017)	65-70 (FTE 75-80 ⁵)	25-30 (FYE 75-80)

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

*FTE: Cyfwerth ag amser llawn.

*FYE: Cyfwerth â blwyddyn llawn.

Roedd buddion pensiwn uwch swyddogion yn ystod 2018-19 yn:

Uwch swyddogion	Pensiwn Cronedig ar oedran pensiwn fel ar 31/03/19 a chyfandalia d perthnasol	Cynnydd gwirionedd ol mewn pensiwn a chyfandalia d cysylltiedig ar oedran pensiwn	CETV ar 31/03/19	CETV ar 31/03/18	Cynnydd gwirionedd l mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000
Dyfed Alsop Prif Weithredwr	20-25 a chyfandaliad o 45-50	2.5-5 a chyfandaliad o 0-2.5	342	266	26
Rebecca Godfrey Prif Swyddog Strategaeth	15-20	2.5-5	196	144	20
Sean Bradley Prif Swyddog Cyfreithiol a Pholisi	25-30 a chyfandaliad o 10-15	0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5	397	328	14

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

⁵ Newidiodd Sean Bradley ei patrwm gweithio o 1.0 FTE i 0.86 FTE ar 01.10.18 a chafodd y newid hwn ei ôl-ddyddio i 01.04.2018.

Buddion pensiwn uwch swyddogion rhwng 18 Hydref 2017 a 31 Mawrth 2018 oedd:

Uwch swyddogion	Pensiwn Cronedig ar oedran pensiwn fel ar 31/03/18 a chyfandaliad perthnasol	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn	CETV ar 31/03/18	CETV ar 18/10/17 ⁶	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000
Dyfed Alsop Prif Weithredwr	20-25 a chyfandaliad o 40-45	0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5	266	245	8
Rebecca Godfrey Prif Swyddog Strategaeth	10-15	0-2.5	144	132	8
Sean Bradley Prif Swyddog Cyfreithiol a Pholisi (o 4 Rhagfyr 2017)	25-30 a chyfandaliad o 10-15	0-2.5 a chyfandaliad o 0	328	324	0

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

* CETV = Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Y Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth gydag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **glasurol plws**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

⁶ Neu ar ddyddiad ei benodi'n Gyfarwyddwr, os yw'n ddiweddarach

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan **clasurol**, **premiwm**, **clasurol plws**, **nuvos** ac **alpha** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai hynny a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alpha** rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob Aelod sy'n newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', a'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog olaf y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** - fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogaion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol plws**, **nuvos** a **alpha**. Mae buddion **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80th o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol ar adeg ymddeol. Mae buddion **premiwm** yn cronni ar gyfradd o 1/60th o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **glasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **clasurol plws** yn ei hanfod yn gymysgedd o'r ddau, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel rhai **clasurol**, a buddion am wasanaeth ers Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel rhai **premiwm**. Gyda **nuvos**, bydd aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bydd yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff y cyfrif pensiwn y mae'r aelod wedi'i gronni ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlynedd honno'r cynllun a chaiff y pensiwn cronodig ei uwchraddio yn unol â Deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, heblaw mai 2.32% yw'r gyfradd cronni. Ym mhob achos, gall Aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliad yw cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronodig a ddyfynnir yw'r pensiwn sydd gan yr Aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu cyn gynted ag y bydd wedi peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd yr oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau **clasurol**, **premiwm** a **clasurol plws**, 65 ar gyfer aelodau o **nuvos**, ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu 65, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau o **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf, wedi ei asesu gan actiwari, buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth o'r cynllun pensiwn yn gyfan gwbl, nid ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch sydd â datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gaiff ei gyllido gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a chydabyddiaeth ariannol canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ACC yn y flwyddyn ariannol 2018-19 oedd £95,000-100,000 (2017-18: £90,000-95,000). Roedd hyn 2.45 gwaith yn uwch (2017-18: 2.29) na chydabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu, sef £39,750 (2017-18: £40,345). Y cyfarwyddwr a oedd yn ennill y cyflog uchaf oedd y Prif Weithredwr yn 2018-19 ac yn 2017-18.

Y rheswm dros y cynnydd, er mai bychan ydyw, yng nghymhareb y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf a'r cyflog canolrifol rhwng 2017-18 a 2018-19 yw'r gyfran uchel o swyddi gwag a gafodd eu llenwi yn ystod y cyfnod hwn gan ACC. Fel sefydliad newydd, nid oedd pob aelod o staff yn ei swydd ar ddechrau'r cyfnod adrodd (21 o staff mewn swyddi ar 18 Hydref 2017 a 66 o staff mewn swyddi ar 31 Mawrth 2019). Yn gyffredinol, cafodd uwch rolau eu recriwtio'n gyntaf er mwyn galluogi'r unigolion hynny i fod yn eu swyddi wedyn er mwyn recriwtio'r swyddi is o fewn eu timau. Golyga hyn fod cyfran is o staff is yn gyflogedig yn ystod 2017-18 o'i gymharu â 2018-19, gan gynyddu'r gymhareb cyflog canolrif yn unol â hynny. Cynyddodd cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf hefyd

rhwng 2017-18 a 2018-19, o ganlyniad i ddyfarniad cyflog blynyddol yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Yn 2018-19 ac yn 2017-18, derbyniodd un cyflogai gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn uwch na'r Cyfarwyddwr a oedd yn ennill y cyflog uchaf. Darparodd y gweithiwr hwn wasanaethau gweithredu a newid busnes. Eu cydnabyddiaeth ariannol cyfwerth ag amser llawn yn y flwyddyn ariannol 2018-19 oedd £95,000–£100,000 (2017-18: £95,000–£100,000).

Roedd cydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £19,240 i £96,907 (2017-18: £17,200 i £96,907). Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog a buddiannau mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod pensiynau.

Adroddiad Staff

Costau staff

Costau staff am y cyfnod oedd:

Uwch swyddogion	Staff a gyflogir yn barhaol ⁷	Staff contract ac asiantaeth ⁸	Cyfanswm
	2017-19 £000	2017-19 £000	2017-19 £000
Cyflogau ⁹	3,447	155	3,602
Costau nawdd cymdeithasol ¹⁰	386	0	386
Costau pensiwn eraill	756	1	757
Cyfanswm	4,589	156	4,745

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Roedd costau staff yn ystod y cyfnod yn is na'r disgwyl. Roedd hyn oherwydd i'r rhan fwyaf o gyflogaion gael eu recriwtio i ACC yn ystod y cyfnod hwn, ac fe gymerodd hyn fwy o amser na'r disgwyl am resymau cynlluniedig a rhai nas cynlluniwyd. Er enghraifft, cymrodd prosesu cliriadau diogelwch fwy o amser na'r disgwyl ar brydiau, ac yn ddiweddarach penderfynwyd na fyddai angen rhai swyddi ar unwaith, a gohiriwyd y penodiadau hynny tan yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod.

Cynllun Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir, ac felly ni all ACC nodi'r gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn o'r cynllun ar 31

⁷ Mae'r staff a gyflogir yn barhaol yn y tabl hwn yn cynnwys staff sydd ar fenthyl i'r Awdurdod gan gyflogwyr eraill y Gwasanaeth Sifil, ond sy'n cael eu cyflogi'n barhaol gan y cyflogwr Gwasanaeth Sifil hwnnw.

⁸ Roedd staff contract ac asiantaeth ar gyfer y cyfnod yn cynnwys nifer fach o staff asiantaeth (tri) ac un contract cyfnod penodol. Yn ogystal â'r ffigurau hyn, cafodd un aelod o staff asiantaeth ei gynnwys mewn prosiectau a oedd yn ymwneud â TGCh.

⁹ Mae'r cyflog yn cynnwys cyflogau gros, goramser, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau neu daliadau eraill i'r graddau eu bod yn ddarostyngedig i drethiant y DU. Yn ogystal, ar gyfer staff contract ac asiantaeth, gall cyflog hefyd gynnwys ffioedd asiantaeth a TAW ar y gyfradd berthnasol.

¹⁰ Yn y rhan fwyaf o achosion, cynhwysir costau nawdd cymdeithasol a chostau pensiwn eraill ar gyfer staff contract ac asiantaeth yn y ffigurau ar gyfer cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros.

Mawrth 2016. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservicepensionscheme.org.uk).

Ar gyfer 2018-19, roedd cyfraniadau cyflogwr o £556,964 yn daladwy i'r PCSPS (2017-18 £167,511) ar un o bedair cyfradd o fewn ystod o 20.0 i 24.5 y cant (yn 2017-18 a 2018-19 hefyd) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae cyfraddau'r cyfraniadau'n adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gael eu cronni, yn hytrach na phan fydd y costau yn digwydd mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad y cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd £4,007 mewn cyfraniadau cyflogwr (2017-18 £1,719) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiynau cyfranddeiliaid sydd wedi'u penodi. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac maent yn amrywio rhwng 8 a 14.75 y cant (yn 2017-18 a 2018-19) o dâl pensiynadwy. Yn ogystal, mae 0.5 y cant o dâl pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol oherwydd salwch. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gan gyflogeion hyd at 3 y cant o dâl pensiynadwy.

Nid oedd unrhyw unigolion (naill ai yn 2017-18 nac yn 2018-19) wedi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch; felly, roedd cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn ddim.

Cynllun iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill

Telir costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r rhain yn gostau cyflogwyr sy'n gysylltiedig ag ymadael yn gynnar ac fe'u cyfrifir yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw ACC wedi cytuno i ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan ACC yn hytrach na chynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol oherwydd afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr isod.

Roedd taliadau o'r fath yn ystod y cyfnod yn ddim.

Uwch Wasanaeth Sifil yn ôl band cyflog

Nifer aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn ôl eu band cyflog ar 31 Mawrth 2019 oedd:

Band cyflog¹¹	Nifer
SCS 2 (datgelwyd pob un yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol)	1
SCS 1 (datgelwyd pob un yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol)	2

Nifer y Bobl a Gyflogir

Ar gyfartaledd, roedd nifer y bobl cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gyflogwyd (gan gynnwys SCS) yn:

¹¹ Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw swyddi ym mandiau 3 neu 4 yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS).

	2018-19	2017-18 (o 18 Hydref 2017)
Staff parhaol	38	6
Staff ar fenthyg	23	27
Staff cyfnod penodol¹²	0.2	0
Cyfanswm	61	33

Yn ogystal â staff cyflogedig fel y nodir uchod, nifer y staff asiantaeth FTE a gyflogwyd ar gyfartaledd oedd:

	2018-19	2017-18
Staff asiantaeth	1	0.2

Cyfansoddiad y Staff

Mae ACC yn cadw ac yn adolygu gwybodaeth cydraddoldeb am ei staff, ac yn ystyried effeithiau ar recriwtio, hyfforddi, datblygu gyrfa, a dyrchafu o ran y grwpiau sydd wedi'u diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (er enghraifft, anabledd, oedran, a rhyw). Darparwyd trosolwg o gydraddoldeb o fewn ACC gan y Bwrdd, y Pwyllgor Pobl, a'r Tîm Arwain yn ystod cyfnod yr adroddiad, a llofnododd y Bwrdd y [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb](#) ym mis Mawrth 2019. Er bod y wybodaeth cydraddoldeb yma'n cael ei hadolygu'n fewnol, yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r dadansoddiad o staff yn addas i'w gyhoeddi oherwydd, fel cyflogwr bach, byddai'n galluogi i unigolion a/neu grwpiau bach gael eu hadnabod. Eithriad i hyn yw proffil ein staff o ran rhyw, sydd wedi'i gynnwys isod.

Dadansoddiad o ryw'r personau a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2019 oedd:

	Benywaidd	Gwrywaidd
Cyfarwyddwyr / Uwch Wasanaeth Sifil	1	2
Gweithwyr eraill	34	25

Dadansoddiad o ryw'r personau a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2018 oedd:

	Benywaidd	Gwrywaidd
Cyfarwyddwyr / Uwch Wasanaeth Sifil	1	2
Gweithwyr eraill	23	16

Roedd pob aelod o'r Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn Gyfarwyddwyr yn ystod y cyfnod adrodd (2017-18 a 2018-19).

Roedd prosesau a weithredwyd yn ystod y cyfnod er mwyn hybu triniaeth gyfartal yn cynnwys:

- Ennill Statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd - Ymroddedig, ac arddangos y statws hwn ar ein tudalen we recriwtio
- Cyflwyno cynllun gwarantu cyfweliad i bob ymgeisydd anabl sy'n bodloni gofynion sylfaenol y rôl
- Dileu pob cyfeiriad at enw, rhyw, oedran, cyfeiriad ac enwau sefydliadau addysgol o geisiadau am swyddi er mwyn osgoi rhagfarn yn ystod y broses ddethol

¹² Er enghraifft, lleoliadau a delir dros yr haf i fyfyrwyr mewn addysg uwch.

- Gofyn i bob ymgeisydd a oes arnynt angen unrhyw addasiadau neu ddewisiadau amgen i'r prosesau asesu
- Ei gwneud yn ofynnol i bob panel recriwtio fod yn gymysg o ran rhyw, a bod aelodau o'r panel wedi cwblhau hyfforddiant rhagfarn anymwybodol
- Ystyried pob cais am hyfforddiant, am adolygu dulliau rheoli talent ac am ddyrchafiadau mewnol yn ganolog er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau rhagfarn
- Caffael a hyrwyddo gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cymorth i Gyflogeion er mwyn cynorthwyo staff sy'n mynd yn sâl yn ystod eu cyflogaeth
- Sefydlu Grŵp Llesiant staff, lansio Strategaeth Llesiant, a threfnu digwyddiadau gan gynnwys archwiliadau iechyd mewnol a hyfforddiant iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr llinell
- Cynnal asesiadau offer sgrin arddangos (DSE) ar gyfer pob aelod o staff er mwyn nodi unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar ymuno â ACC ac yn ôl y gofyn
- Rhoi gliniaduron i'r holl staff, waeth beth fo'u rôl, er mwyn hwyluso gweithio hyblyg.

Absenoldeb Oherwydd Salwch

Caiff ffigurau absenoldeb oherwydd salwch eu mynegi fel arfer fel un o ddau gyfrifiad Dyddiau Gwaith a Gollwyd yn Flynyddol (AWDL):

AWDL fesul blwyddyn staff = cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn ystod y flwyddyn / cyfanswm nifer y blynyddoedd staff posibl.

Mae hyn yn well cynrychiolaeth o'r diwrnodau a gollir yn wirioneddol gan nad yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, a gwyliau baint yn ystod y cyfnod salwch. Mae defnyddio cyfanswm o flynyddoedd staff hefyd yn rhoi ystyriaeth gywir ar gyfer staff rhan-amser, gweithwyr newydd, a'r rhai sy'n gadael yn ystod y cyfnod. Er enghraifft, byddai rhywun sy'n gweithio hanner yr oriau llawn amser mewn wythnos yn cael blwyddyn staff o 0.5.

AWDL y pen = cyfanswm y diwrnodau a gollwyd / cyfanswm aelodau staff

Defnyddir y cyfrifiad hwn yn eang ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac fe'i cynhwysir yma er mwyn gallu cymharu'n rhwydd â sefydliadau eraill ar gyfer 2018-19. Ni ddarperir y ffigur hwn ar gyfer y cyfnod 18 Hydref 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 gan mai dim ond rhan o flwyddyn yw'r cyfnod hwn, a byddai'n darparu ffigur camarweiniol oherwydd y ffordd y caiff AWDL y person ei gyfrifo.

Yn 2018-19, roedd lefel yr absenoldeb oherwydd salwch o fewn ACC yn 6.86 AWDL fesul blwyddyn staff (4.65 yn 2017-18). Mae hyn yn debyg i AWDL y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2018-19 (6.9 diwrnod). AWDL y pen ar gyfer ACC yn 2018-19 oedd 8.83, sy'n uwch nac AWDL y pen y Gwasanaeth Sifil o 5.9 diwrnod am 2018-19.

Mae'r ffigwr ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch staff ACC yn cynnwys absenoldeb estynedig pedwar aelod o staff yn sgil salwch difrifol, rhywbeth a allai gael effaith sylweddol ar gyfrifiadau AWDL sefydliadau bach fel ACC. O eithrio eu habsenoldebau hwy o'r cyfrifiad, yr AWDL fesul blwyddyn staff yn 2018-19 oedd 2.07 (2.29 am 2017-18).

Costau Ymgynghori

Y costau ymgynghori yn ystod y cyfnod oedd:

2017-19

	£000
Costau digidol a thechnoleg	578
Costau cyfathrebu	85
Costau data	47

Pan fo angen parhaol am unigolion medrus, fel arfer bydd ACC yn recriwtio gweithiwr neu dîm i ymgymryd â'r gweithgareddau. Fodd bynnag, ar gyfer gwaith arbenigol tymor byrrach, nid yw hyn yn ymarferol nac yn gost effeithiol, a'r ffordd orau yw iddo gael ei gyflawni gan sefydliad ymgynghori arbenigol yn hytrach nac unigolyn. Mae'r dull hwn yn galluogi ACC i brynu'r arbenigedd a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno, heb gostau afresymol a heb orfod creu contractau cyfnod penodol. Mae hyn yn arbennig o wir gan mai sefydliad bach yw ACC, ac nid yw'n gweithredu ar raddfa sy'n caniatáu gwneud yr holl waith yn fewnol, ac oherwydd natur dros dro y rhan fwyaf o'r gwaith gweithredu oedd ei angen yn ystod y 18 mis cyntaf o weithredu.

Ysgwyddwyd costau ymgynghori yn y meysydd canlynol:

- Digidol a thechnoleg: mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn ymwneud â datblygiadau i'r System Rheoli Trethi, ynghyd â phrofion a chyngor ar seibrddiogelwch;
- Cyfathrebu: gwaith hunaniaeth brand ac adolygiadau o ddealltwriaeth ac effaith diwylliant ACC ac Ein Dull;
- Data: datblygu cefn y system er mwyn ein helpu ni i strwythuro ein data i'w gyhoeddi ar StatsCymru, a gwasanaethau i'n galluogi i gysylltu'n ddiogel â sefydliadau partner.

Datgeliadau Oddi ar y Gyflogres

Trefniadau oddi ar y gyflogres yw'r rhai lle caiff unigolion, naill ai rhai hunangyflogedig neu rai sy'n gweithredu drwy gwmni gwasanaeth personol, eu talu'n gros gan y cyflogwr.

O 6 Ebrill 2017, daeth diwygiadau i ddeddfwriaeth cyfryngwyr (a elwir yn IR35) i rym. Roedd y rhain yn newid y rheolau ar gyfer pobl sydd oddi ar y gyflogres sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, ac yn symud y rhwymedigaeth i bennu statws treth oddi wrth y contractwr at yr ymgysylltydd.

Mae'r holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres presennol wedi bod yn destun asesiad ar sail risg. Gwneir hyn er mwyn penderfynu a oes angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth a, lle bo angen, bod y sicrwydd hwnnw wedi'i geisio.

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2019, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n para am fwy na 6 mis:

Nifer o'r ymrwymadau oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2019	3
O'r rhain:	
Nifer sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg yr adroddiad	2
Nifer sydd wedi bodoli am gyfnod o 1-2 mlynedd ar adeg yr adroddiad	1

Pob ymrwymiad oddi ar y gyflogres newydd, neu'r rhai a oedd wedi cyrraedd chwe mis o hyd, rhwng 18 Hydref 2017 a 31 Mawrth 2019, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para am fwy na chwe mis:

Nifer yr ymrwymiadau newydd, neu'r rhai a oedd wedi cyrraedd chwe mis o hyd, rhwng 18 Hydref 2017 a 31 Mawrth 2019	7
O'r rhain:	
Nifer a aseswyd fel rhai wedi'u dal gan IR35	2
Nifer a aseswyd fel rhai heb eu dal gan IR35	5
Nifer a ymrwymwyd yn uniongyrchol (drwy berson â rheolaeth arwyddocaol (PSC) a gontractiwyd i adran) ac sydd ar gyflogres yr adran	0
Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb / sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0 ¹³
Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid statws IR35 yn sgil yr adolygiad o gysondeb	0

Unrhyw ymrwymiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd ac/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol rhwng 18 Hydref 2017 a 31 Mawrth 2018:

Nifer yr ymrwymiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd ac/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ariannol:	0
Cyfanswm yr unigolion ar, ac oddi ar, y gyflogres sydd wedi'u hystyried fel aelodau bwrdd ac/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ariannol:	11

Materion eraill sy'n ymwneud â chyflogeion

Mae ACC yn sicrhau'n ddiwyd bod ei staff yn cyfrannu at faterion a phenderfyniadau sy'n ymwneud â nhw mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau cyfathrebu digidol fel negeseuon e-bost a defnyddio'r fewnrwyd, cyfarfod gweithlu a sesiwn holi ac ateb gyda'r Prif Weithredwr bob pythefnos, a diwrnodau i ffwrdd bob chwarter lle mae'r staff i gyd yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r sefydliad, megis pennu amcanion ein Cynllun Corfforaethol. Yn ogystal, cafodd tri undeb llafur eu cydnabod yn wirfoddol gan ACC i gynrychioli cyflogeion.

Caiff diogelwch staff yn y gweithle ei adolygu a'i gynnal drwy sawl proses wahanol. Yn ein swyddfeydd, cynhelir archwiliadau rheolaidd o ddiogelwch ffisegol y gweithle a'r cyfarpar a ddefnyddir, gyda gwiriadau ychwanegol ar gyfer staff sydd ag anghenion penodol megis staff sy'n feichiog neu sy'n dioddef o straen neu salwch arall. Wrth ymweld â safleoedd eraill a threthdalwyr, gwneir asesiadau risg, ac mae system bydis ar waith er mwyn sicrhau diogelwch staff. Fel y nodwyd eisoes, mae Grŵp Llesiant gweithgar wedi'i sefydlu, a chytunwyd ar strategaeth llesiant gan y Pwyllgor Pobl.

Caiff 16 o wahanol broffesiynau eu cynrychioli yn ACC, gan gynnwys arbenigwyr data, digidol, cyllid, cyfreithiol, adnoddau dynol a threth. Cynhaliwyd hyfforddiant gweithlu cyfan,

¹³ Mae'r Awdurdod yn gweithredu adolygiadau chwarterol o ymrwymiadau oddi ar y gyflogres er mwyn sicrhau cysondeb a sicrwydd; fodd bynnag, gan fod rhai contractau wedi'u caffael yn wreiddiol drwy Lywodraeth Cymru, cyfnod byr rhai ymrwymiadau a bod contractau eraill yn gorffen, nid oedd angen arolygu unrhyw un o'r ymrwymiadau yn ystod y cyfnod.

yn ogystal â hyfforddiant proffesiwn neu hyfforddiant penodol i'r rôl yn ystod y cyfnod, ac mae oddeutu traean o'r rolau wedi'u cynnig ar sail benthyciad er mwyn annog cyfnewid a rhannu gwybodaeth gyda chyflogwyr Gwasanaeth Sifil eraill. Mae proses rheoli perfformiad yn seiliedig ar ddatblygiad parhaus a sgysiau rheoli llinell o ansawdd uchel ar waith.

Dyfed Alsop
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
2 Gorffennaf 2019

Datgeliadau Atebolrwydd

Datganiad Colledion

Nid oes unrhyw golledion perthnasol i'w datgelu. Mae Nodyn 3.2 i'r datganiad treth yn datgelu colledion referniw.

Dyfed Alsop
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
2 Gorffennaf 2019

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Adnoddau)

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cyfrif Adnoddau Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiâu cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr cyfrif adnoddau Awdurdod Cyllid Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'i wariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol, yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer darparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd arnynt os:

- nad yw'n briodol defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu Cyfrif Adnoddau Awdurdod Cyllid Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw

fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn glir yn fy adroddiad fel arall, nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail ar y wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n sy'n berthnasol anghyson â hi. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaif y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion y'i bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethiant wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Datganiad Llywodraethiant.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, a'r cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru a wneir yno, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gwir a theg ac am y rheolaeth fewnol sy'n briodol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu Cyfrif Adnoddau Awdurdod Cyllid Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni fernir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol, gyda'i gilydd, yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion y'i bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygredded gwefan Awdurdod Cyllid Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y chyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Awdurdod Cyllid Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Datganiad Treth)

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Tystiaf fy mod wedi archwilio Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'r refeniw net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol, yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o Awdurdod Cyllid Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol Archwiliwyr y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer darparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd arnynt os:

- nad yw'n briodol defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu Cyfrif Adnoddau Awdurdod Cyllid Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau

a nodir yn glir yn fy adroddiad fel arall, nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail ar y wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n sy'n berthnasol anghyson â hi. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion y'i bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethiant wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Ddatganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Datganiad Llywodraethiant.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, a'r cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru a wneir yno, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gwir a theg ac am y rheolaeth fewnol sy'n briodol ym

marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni fernir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol, gyda'i gilydd, yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion y'i bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygredded gwefan Awdurdod Cyllid Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y chyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Awdurdod Cyllid Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifon Adnoddau

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	Nodyn	2017-19 £000
Costau staff	2	4,745
Costau eraill sy'n gysylltiedig â staff	2	216
Costau gweithredu eraill	2	2,159
Dibrisiant	3.1	35
Amorteiddiad	3.2	850
Gwariant gweithredu net		8,005
Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		8,005

Datganiad o Sefyllfa Ariannol

	Nodyn	2017-2019 £000
Asedau anghyfredol		
Offer	3.1	69
Asedau anniriaethol	3.2	1,625
Cyfanswm asedau anghyfredol		1,694
Asedau cyfredol		
Rhagdaliadau ac incwm cronedig arall	4	156
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	5	477
Cyfanswm asedau cyfredol		633
Rhwymedigaethau cyfredol		
Symiau masnach a symiau taladwy eraill	6	(703)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(703)
Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol		1,624
Ecwiti trethdalwyr		
Cronfa gyffredinol		1,624

Dyfed Alsop
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
2 Gorffennaf 2019

Datganiad o Lifoedd Arian Parod

	Nodyn	2017-19 £000
Lifau arian parod o weithgareddau gweithredu		
Gwariant gweithredu net		(8,005)
Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn rai arian parod (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill		(156)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill		703
Dibrisiant ac amorteiddiad	3.1 & 3.2	885
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		(6,573)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi		
Ychwanegu offer	3.1	(104)
Ychwanegu asedau anniriaethol	3.2	(2,475)
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi		(2,579)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido		
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		9,629
Cyllido net		477
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod		0
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod	5	477

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol £000
Balans ar 18 Hydref 2017		0
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr		
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		9,629
Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod		(8,005)
Balans ar 31 Mawrth 2019		1,624

Nodiadau ar y Cyfrifon Adnoddau

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

1.1 Sail y cyfrifo

Paratoir y cyfrifon hyn yn unol â:

- Chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2018-19 (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM
- Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus
- Y polisiau cyfrifo y manylir arnynt yn y nodiadau dilynol

Mae ACC wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi dod i rym eto. Ni ddisgwylir y bydd y rhain yn cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

Crëwyd ACC ar 18 Hydref 2017 ac felly mae'r cyfnod 2017-19 yn cynnwys 18 Hydref 2017 hyd 31 Mawrth 2019.

Mae'r wybodaeth ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ac yn y nodiadau wedi'i thalgrynnu i'r £000 agosaf.

1.2 Confensiwn cyfrifo

Yn unol â'r FReM, paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol ac ar sail busnes gweithredol, sy'n ystyried y bydd y sefydliad yn parhau mewn bodolaeth gweithredol am y dyfodol rhagweladwy. Cyfrifwyd gwariant ar sail croniadau.

1.3 Treth Ar Werth (TAW)

Mae ACC wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac mae'n adennill rhai elfennau o TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Cofnodir gwariant nwyddau a gwasanaethau eraill gan gynnwys TAW.

1.4 Cyllid

Llywodraeth Cymru yw unig ffynhonnell cyllid ACC. Mae'r symiau hyn yn cael eu hystyried fel cyllid yn hytrach nac incwm, ac fe'u credyd i'r Gronfa Gyffredinol bob mis.

1.5 Adrodd cylchrannol

Dim ond yng Nghymru y mae ACC yn gweithredu ac mae'n casglu incwm ar gyfer Cymru gyfan ar ran Cronfa Gyfunol Cymru. Ein barn ni felly yw bod y sefydliad yn gweithredu mewn un segment yn unig fel y nodwyd.

1.6 Offerynnau ariannol

Mae offeryn ariannol yn gcontract sy'n arwain at ased ariannol mewn un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti mewn un arall. Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau ACC a'r ffordd y caiff ei ariannu, yr unig offerynnau ariannol yn y cyfrifon yw asedau ariannol ar ffurf symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill a rhwymedigaethau ariannol ar ffurf

taliadau masnach a symiau taladwy eraill. Felly nid oes unrhyw amlygiad i hylifedd arwyddocaol, risg cyfradd llog, nac ychwaith risg arian cyfred tramor.

1.7 Asedau Anghyfredol

Offer

Caiff cyfarpar ei gynnwys ar werth teg a defnyddir cost hanesyddol fel procsi ar gyfer gwerth teg yr asedau hyn. Y lefel isaf o gyfalafu ar gyfer asedau unigol yw £5,000.

Wrth i ACC gael ei sefydlu, prynwyd offer TGCh gan Lywodraeth Cymru. Ar 1 Ebrill 2018 trosglwyddwyd yr offer o Lywodraeth Cymru i ACC.

Darperir dibrisiant ar bob ased peiriannau ac offer. Fe'i cyfrifir er mwyn dileu'r gwerth ar ôl tynnu'r gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, mewn rhannau cyfartal ar hyd eu bywydau defnyddiol, fel a ganlyn:

- Offer TGCh 3 blynedd
- Offer arall 5 mlynedd

Cyfrifir dibrisiant o'r mis ar ôl caffael yr ased.

Asedau anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol eu datgan ar gostau hanesyddol. Darperir amorteiddiad ar sail llinell syth, dros fywyd neu gyfnod defnyddiol amcangyfrifedig y drwydded. Cyfrifir amorteiddiad y mis ar ôl caffael yr ased.

- Trwyddedau a meddalwedd 3 blynedd

2. Gwariant

	2017-19 £000
Staff a chostau cysylltiedig¹	
Cyflogau	3,450
Costau pensiynau	757
Costau nawdd cymdeithasol	386
Costau asiantaeth	152
	4,745
Costau eraill sy'n gysylltiedig â staff	
Hyfforddi a datblygu	115
Teithio a chynhaliaeth	88
Treuliau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogeion	13
	216
Costau gweithredu eraill	
Gweinyddu a chostau swyddfa eraill	97
Costau'r Bwrdd a chostau cysylltiedig ¹	167
Ffi archwiliad allanol	30
Costau sy'n gysylltiedig â TGCh ²	1,570
Ffi archwiliad mewnol	21

	2017-19 £000
Costau proffesiynol eraill ³	274
	2,159
Amorteiddiad a Dibrisiant	885
Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	8,005

¹ Mae dadansoddiad pellach o gostau staff i'w gael yn adroddiad y staff ar dudalen 25.

² Mae'r costau hyn yn ymwneud â chostau cymorth TGCh, gwelliannau i'r system a chostau sy'n gysylltiedig â'r cwmwl.

³ Mae costau proffesiynol eraill yn cynnwys taliadau i Gyfoeth Naturiol Cymru, costau ymgynghori a chyfathrebu a ffioedd cyfreithiol.

3. Asedau anghyfredol

3.1 Offer

	Offer TGCh¹ £000	Offer arall £000	2017-19 £000
Cost neu brisiad			
Ar 18 Hydref 2017	0	0	0
Ychwanegiadau	93	11	104
Ar 31 Mawrth 2019	93	11	104
Dibrisiant			
Ar 18 Hydref 2017	0	0	0
Dibrisiant yn ystod y flwyddyn	33	2	35
Ar 31 Mawrth 2019	33	2	35
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2019	60	9	69

¹ Prynwyd yr asedau hyn gan Lywodraeth Cymru a'u trosglwyddo i ACC ar 1 Ebrill 2018.

3.2 Asedau anniriaethol

	Trwyddedau¹ £000	Meddalwedd¹ £000	2017-19 £000
Cost neu brisiad			
Ar 18 Hydref 2017	0	0	0
Ychwanegiadau	66	2,409	2,475
Ar 31 Mawrth 2019	66	2,409	2,475
Amorteiddiad			
Ar 18 Hydref 2017	0	0	0
Dibrisiant yn ystod y flwyddyn	24	826	850
Ar 31 Mawrth 2019	24	826	850
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2019	42	1,583	1,625

¹ Prynwyd yr asedau hyn gan Lywodraeth Cymru a'u trosglwyddo i ACC ar 1 Ebrill 2018.

4. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

	2017-19 £000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig arall	156
	156

Nid oes unrhyw symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Nid oes angen darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

5. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

	2017-19 £000
Balans ar 18 Hydref 2017	0
Newid net mewn balansau arian parod ac arian cyfwerth ag arian parod	477
Balans ar 31 Mawrth	477

Mae'r balansau i gyd yn cael eu cadw gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

6. Symiau masnachtaladwy a symiau taladwy eraill

	2017-19 £000
Symiau masnach taladwy	(599)
Croniadau eraill	(104)
	(703)

Mae'r rhan fwyaf o'r symiau mewn croniadau eraill yn ymwneud â chroniad ar gyfer hawl gwyliau staff. Mae hyn yn seiliedig ar y dyddiad y mae eu hawl i wyliau'n dechrau, sef y dyddiad y cawsant eu cyflogi fel arfer. Mae'r cyfrifiad felly'n seiliedig ar ben-blwyddi gwyliau unigol yn hytrach na blwyddyn wyliau sefydlog.

7. Trafodiadau partïon cysylltiedig

Mae ACC yn adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru. Felly, ystyrir mai Llywodraeth Cymru yw'r rhiant-adran ac yn barti cysylltiedig y mae ACC wedi cael nifer o drafodiadau perthnasol â hi.

Derbyniwyd cyllid o £9.63 miliwn yn 2017-19, (roedd £1.44 miliwn yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru yn 2017-18 a £2.57 miliwn yn ymwneud ag asedau anghyfredol a drosglwyddwyd ar 1 Ebrill 2018).

Gwnaed taliadau o £3.89 miliwn i Lywodraeth Cymru yn ystod 2018-19 yn bennaf mewn perthynas â chostau cyflogres yn cynnwys staff wedi'u secondio i ACC ond hefyd ar gyfer costau cwmwl TG.

Yn ystod y cyfnod, nid oedd unrhyw drafodiadau perthnasol gyda sefydliadau yr ymgymrodd aelodau o staff y pwyllgorau anweithredol, nac unrhyw aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig â hwy gyda ACC.

8. Ymrwymïadau Cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymïadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2019.

9. Asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oedd unrhyw asedau na rhwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2019.

10. Digwyddïadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddïadau adroddadwy ar ôl y cyfnod adrodd.

Datganiad Treth**Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall**

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

	Nodyn	2018-19 £000
Refeniw		
Trethi a thollau		
Treth Trafodiadau Tir (TTT)	2.1	227,846
Treth Gwarediadau Tirlenwi (TGT)	2.2	44,433
Cyfanswm trethi a thollau		272,279
Cosbau a llog		
Cosbau	2.3	157
Llog	2.3	16
Cyfanswm cosbau a llog		173
Cyfanswm y refeniw		272,452
Gwariant		
Llog a dalwyd	3.1	(13)
Colledion refeniw	3.2	(2)
Cyfanswm y gwariant		(15)
Refeniw net ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru		272,437

Ni oedd unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig a gyfrifwyd amdanynt mewn man heblaw am y Datganiad Refeniw, Incwm a Gwariant Arall uchod

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 52 yn rhan o'r datganiad hwn.

Datganiad o Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2019

	Nodyn	2018-19 £000
Asedau cyfredol		
Symiau derbyniadwy	4.1	1,892
Trethi cronedig derbyniadwy	4.1	14,479
Arian parod	5	5,459
Cyfanswm asedau cyfredol		21,830
Rhwymedigaethau cyfredol		
Symiau taladwy	6	143
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		143
Cyfanswm yr asedau net		21,687
Cynrychiolir gan y		
Balans sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru	8	21,687

Dyfed Alsop

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

2 Gorffennaf 2019

Datganiad o Lifoedd Arian Parod

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

	Nodyn	2018-19 £000
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	A	256,209
Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol		(250,750)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn	B	5,459

Nodiadau ar y Datganiad o Lifoedd Arian Parod

	2018-19 £000
A: Cysoni llif arian newydd i symudiad mewn cronfeydd net	
Refeniw net ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru	272,437
(Cynnydd)/gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod	(16,371)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau	143
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	0
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	256,209

	2018-19 £000
B Dadansoddiad o'r newidiadau mewn arian net	
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn	5,459
Arian net ar 1 Ebrill 2018 (balans agoriadol y banc)	0
Y gronfa arian net ar 31 Mawrth 2019 (balans banc terfynol)	5,459

Nodiadau ar y Datganiad Treth

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

1.1 Sail y cyfrifo

Paratoir y cyfrifon hyn yn unol â:

- Y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol ag adran 30 (1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2018-19 (FRoM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM
- Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus
- Y polisiau cyfrifo y manylir arnynt yn y nodiadau dilynol

Mae ACC wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi dod i rym eto. Ni ddisgwylir y bydd y rhain yn cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

Yr incwm ac unrhyw wariant cysylltiedig a gynhwysir yn y datganiadau hyn yw'r llif arian hwnnw y mae ACC yn ei drin ar ran Cronfa Gyfunol Cymru a ble mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach nac fel pennaeth.

Dyma'r flwyddyn gyntaf i ACC gynhyrchu datganiad ymddiriedaeth ac felly nid oes cymaryddion ar gyfer 2017-18. Y cyfnod y mae'r datganiad treth yn ymwneud ag ef yw 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019.

Mae'r wybodaeth ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ac yn y nodiadau wedi'i thalgrynnydd i'r £000 agosaf.

1.2 Confensiwn cyfrifo

Mae'r Datganiad Treth wedi'i baratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Cyfrifir am drethi gan gynnwys ad-daliadau ar sail croniadau.

1.3 Cydnabod refeniw

Trethiant

Caiff trethi eu mesur yn unol ag IAS18. Cânt eu mesur ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy, net o ad-daliadau. Cydnabyddir refeniw pan:

- Mae digwyddiad trethadwy wedi digwydd, gellir mesur y refeniw yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y bydd y buddion economaidd o'r digwyddiad trethadwy yn llifo i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae digwyddiad trethadwy yn digwydd pan fydd atebolrwydd i dalu treth

Caiff unrhyw ddiwygiadau, gan gynnwys ad-daliadau cyfraddau uwch, eu cydnabod hyd at 30 Ebrill 2019 os ydynt yn berthnasol i flwyddyn ariannol flaenorol.

Cosbau a llog

Caiff cosbau a llog eu mesur yn unol ag IAS18. Cânt eu mesur ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy. Cydnabyddir refeniw pan:

- Gaiff y ddirwy neu'r gosb ei gosod yn ddilys a daw'n dderbyniadwy gan ACC

Caiff y gosb neu'r llog ei ddad-gydnabod pan:

- Gaiff cosb ei chanslo yn dilyn cywiro mân wall gan y trethdalwr neu'r asiant
- Caiff y gost ei chanslo ar apêl, neu am resymau cyfreithiol eraill

Lle y bernir yn ddiweddarach bod cosb neu log, a oedd wedi ei gydnabod o'r blaen, yn anghasgladwy am resymau ac eithrio'r hyn a nodir uchod, cofnodir hyn fel traul ar ddyddiad y penderfyniad.

Ni chydabyddir y bwch treth yn y Datganiad Treth. Y bwch treth yw'r gwahaniaeth rhwng swm y dreth a ddylai, mewn theori, gael ei chasglu gan ACC (yr atebolrwydd damcaniaethol), yn erbyn yr hyn a gesglir mewn gwirionedd. Mae'r rhwymedigaeth treth ddamcaniaethol yn cynrychioli'r dreth a fyddai wedi cael ei thalu pe bai pob unigolyn a chwmni yn cydymffurfio'n llwyr â llythyren y ddeddf yn ogystal â dehongliad ACC o fwiad Cynulliad Cymru wrth bennu cyfraith (y cyfeirir ati fel ysbryd y ddeddf). Mae ACC yn ymgymryd â gwaith lliniaru ac adfer er mwyn sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei dalu.

Caiff polisïau cyfrifyddu pellach eu hegluro yn y nodiadau perthnasol.

1.4 Offerynnau ariannol

Mae offeryn ariannol yn gontract sy'n arwain at ased ariannol mewn un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti mewn un arall. Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau ACC yr unig offerynnau ariannol yn y cyfrifon yw asedau ariannol ar ffurf symiau derbyniadwy a rhwymedigaethau ariannol ar ffurf symiau taladwy. O ganlyniad, nid oes unrhyw amlygiad i hylifedd arwyddocaol, risg cyfradd llog, nac ychwaith risg arian cyfred tramor.

2. Refeniw ac incwm arall

2.1 Treth Trafodiadau Tir

	2018-19 £000
Preswyl	155,428
Amhreswyl	72,418
Cyfanswm Treth Trafodiadau Tir	227,846

Y digwyddiad trethadwy ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yw prynu tir neu eiddo.

Mae cyfraddau preswyl uwch yn daladwy ar brynu eiddo ychwanegol yng Nghymru. Mae'n ad-daladwy pan fydd prif breswylfa flaenorol y trethdalwr yn cael ei werthu o fewn tair blynedd i brynu'r eiddo ychwanegol. Y cyfraniad o drafodiadau cyfraddau uwch ar gyfer 2018-19 oedd £77.69 miliwn. Mae'r ffigur hwn wedi'i ostwng ar gyfer ad-daliadau cyfradd uwch o £5.83 miliwn a £3.39 miliwn sydd bellach yn cael eu trin fel prif gyfraddau preswyl lle mae trethdalwyr wedi gwneud cais llwyddiannus am ad-daliad.

2.2 Treth Gwarediadau Tirlenwi

	2018-19 £000
Treth Gwarediadau Tirlenwi	44,433
Cyfanswm Treth Gwarediadau Tirlenwi	44,433

Telir y Dreth Gwarediadau Tirlenwi pan fo gwastraff yn cael ei waredu i dirlenwi a caiff ei chyfrifo yn ôl y pwysau.

2.3 Cosbau a llog

	2018-19	
	Cosb £000	Llog £000
Treth Trafodiadau Tir	156	16
Treth Gwarediadau Tirlenwi	1	0
Cyfanswm cosbau a llog	157	16

Codir cosbau pan fydd ffurflenni treth yn hwyr yn cael eu derbyn, am daliadau hwyr, neu am resymau eraill a ganiateir o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Codir llog ar daliadau treth hwyr neu daliadau cosbau hwyr.

3. Gwariant

3.1 Llog a dalwyd

	2018-19 £000
Treth Trafodiadau Tir	(13)
Treth Gwarediadau Tirlenwi	0
Cyfanswm y llog a dalwyd	(13)

Mae llog yn daladwy gan ACC ar ad-daliad unrhyw rwymedigaethau treth neu gosbau.

3.2 Colledion refeniw

	2018-19 Dyledion wedi'u dileu £000
Treth Trafodiadau Tir	(2)
Treth Gwarediadau Tirlenwi	0
Cyfanswm	(2)

Colledion refeniw yw achosion o ddileu dyledion, pan fydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd ac ar ôl ystyriaeth ofalus, yr ystyrir na ellir adennill y symiau hyn.

4. Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy

4.1 Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus:

	2018-19	
	Symiau derbyniadwy £000	Refeniw cronedig derbyniadwy £000
Treth Trafodiadau Tir	1,892	5,883
Treth Gwarediadau Tirlenwi	0	8,596
Cyfanswm	1,892	14,479

Mae symiau derbyniadwy yn cynrychioli rhwymedigaethau pan fydd rhwymedigaeth yn cynnwys cosbau ariannol a llog wedi digwydd yn ystod y cyfnod adrodd ond pan na fydd y symiau wedi'u derbyn erbyn dyddiad y fantolen.

Mae derbyniadau refeniw cronedig yn cynrychioli symiau sy'n daladwy mewn perthynas â threthi lle nad yw swm yr ad-daliad wedi'i bennu ar ddyddiad y fantolen.

5. Arian parod

	2018-19 £000
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	5,459
Balans ar 31 Mawrth	5,459

Caiff arian ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru pan y gofynnir am hynny er mwyn rheoli llif arian. Mae'r uchod yn cynrychioli arian a dderbyniwyd o drethi na chafodd eu talu i'r Gronfa cyn 31 Mawrth 2019 ond byddant yn cael eu trosglwyddo yn 2019-20.

6. Symiau taladwy

	2018-19 £000
Treth Trafodiadau Tir	143
Treth Gwarediadau Tirlenwi	0
Cyfanswm	143

Mae symiau taladwy'n symiau sydd wedi cael eu cofnodi gan ACC fel symiau sy'n angen eu talu ond nad yw'r taliad wedi'i wneud eto. Mae gan drethdalwyr yr hawl i newid eu ffurflen dreth hyd at ddeuddeng mis o'r dyddiad ffeilio, ac mewn rhai amgylchiadau bydd hyn yn arwain at ad-daliad. Mae'r rhain yn ymwneud ag ad-daliadau treth, cosbau, neu log sy'n ddyledus, gan gynnwys hawliadau am ad-daliadau cyfradd uwch, lle mae'r symiau wedi'u pennu ar ddyddiad y fantolen.

7. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae'n bosibl i drethdalwyr sydd wedi talu cyfraddau uwch, ond sydd wedi cael gwared â'r brif breswylfa o fewn y cyfnod o dair blynedd i brynu'r breswylfa newydd, dalu'r brif gyfradd yn hytrach na chyfraddau uwch. Mae'n rhaid i'r Trethdalwr gyflwyno cais er mwyn cael yr ad-daliad.

Gall Trethdalwyr nodi eu bwriad i werthu eu prif breswylfa a cheisio ad-daliad o'r cyfraddau uwch wrth gyflwyno'u ffurflen dreth. Pan fydd Trethdalwyr wedi nodi eu bwriad i werthu eu prif breswylfa flaenorol ond nad ydynt wedi cyflwyno cais am ad-daliad, datgelir yr ad-daliad posibl fel rhwymedigaeth digwyddiadol. Ar gyfer 2018-19, y swm amcangyfrifedig yw £11.89 miliwn. Dylid nodi mai ffigur dangosol yw hwn ac nad wyddys y digwyddiad a'r amseriad ar hyn o bryd.

8. Balans sy'n ddyledus i Gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

	2018-19 £000
Balans ar Gronfa Gyfunol Cymru ar 1 Ebrill	0
Refeniw net ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru	272,437
Wedi tynnu'r swm a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru	(250,750)
Balans sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru	21,687

9. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy ar ôl y cyfnod adrodd.

Cyfarwyddiadau Cyfrifon

Awdurdod Cyllid Cymru

Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Casglu a Rheoli Trethi Cymru 2016, Adran 29(1)(b)

Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn paratoi cyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol rhwng 18 Hydref 2017 a 31 Mawrth 2019 a'r blynyddoedd ariannol dilynol, yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o'r Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ("y FReM") a gyhoeddir gan Drysorlys EM, ac sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

1. Bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi er mwyn:
 - a. rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa fel ag yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, a'r llifau arian, a
 - b. datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm perthnasol na chafodd ei ddefnyddio i'r dibenion y'i bwriadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu drafodiadau perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
2. Bydd angen cydymffurfio â gofynion y FReM, ym mhob achos heblaw am amgylchiadau eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun cywir a theg. Os, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, y bydd cydymffurfio â gofynion y FReM yn anghyson â'r gofyniad i roi darlun cywir a theg, dylid gwyro oddi wrth y FReM dim ond i'r graddau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid defnyddio barn wybodus a diduedd i ddyfeisio triniaeth amgen briodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y FReM. Dylid trafod unrhyw wariant perthnasol o'r FReM gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y lle cyntaf.

Gawain Evans

Cyfarwyddwr Cyllid

Llywodraeth Cymru

Dyddiad: 19 Ebrill 2018

Awdurdod Cyllid Cymru

Cyfarwyddyd Datganiad Treth a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 30(1)

Datganiad Treth

Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn paratoi datganiad treth, ar gyfer refeniw ac incwm arall a gasglwyd wrth arfer ei swyddogaethau, ar gyfer y cyfnod ariannol o 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019 a blynyddoedd ariannol dilynol, yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ("y FReM"), a gyhoeddir gan Drysorlys EM, ac sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

1. Bydd y datganiad treth yn cael ei baratoi er mwyn:
 - a. dangos y symiau sy'n dderbyniadwy o gasglu trethi, cosbau, ac incwm arall, unrhyw ddiidyniadau a ganiateir a'r symiau a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, adran 25.
 - b. rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, a'r llifau arian, a
 - c. datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm perthnasol na chafodd ei ddefnyddio i'r dibenion y'i bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru neu drafodiadau perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.
2. Bydd angen cydymffurfio â gofynion y FReM, ym mhob achos heblaw am amgylchiadau eithriadol, er mwyn i'r datganiad treth roi darlun cywir a theg. Os, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, y bydd cydymffurfio â gofynion y FReM yn anghyson â'r gofyniad i roi darlun cywir a theg, dylid gwyro oddi wrth y FReM dim ond i'r graddau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid defnyddio barn wybodus a diduedd i ddyfeisio triniaeth amgen briodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y FReM. Dylid trafod unrhyw wariant perthnasol o'r FReM gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y lle cyntaf.

Gawain Evans
Cyfarwyddwr Cyllid
Llywodraeth Cymru
Dyddiad: 19 Ebrill 2018

Geirfa

Amorteiddiad

Dosraniad cost ased anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol.

Dibrisiant

Dosraniad cost asedau diriaethol anghyfredol.

Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM)

Canllaw cyfrifo technegol Trysorlys EM ar baratoi datganiadau ariannol.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

Cyhoeddir y rhain gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol ac mae datganiadau ariannol y Llywodraeth yn defnyddio'r rhain fel sail eu paratodau ar gyfer eu cyfrifon.

Asedau anghyfredol (a elwir yn asedau sefydlog hefyd)

Ased sydd ym meddiant y sefydliad. Gall y rhain fod yn asedau diriaethol ag iddynt sylwedd ffisegol neu asedau annirweddol – ased adnabyddadwy nad yw'n ariannol sydd heb sylwedd ffisegol iddo, er enghraifft trwyddedau a meddalwedd.

Symiau taladwy

Symiau sy'n ddyledus i'w talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Symiau derbyniadwy

Symiau sy'n ddyledus i ACC ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Ecwiti trethdalwyr

Asedion net y sefydliad.

Cronfa Gyfunol Cymru

Y gronfa a ddefnyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddal symiau a bleidleisir gan y Senedd sydd yna'n cael eu dyrannu, drwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.



Atodiad A



Ein Siarter: gweithio gyda'n gilydd i ddarparu system drethu deg i Gymru.




Mae [ein Siarter](#) yn nodi'r gwerthoedd, yr ymddygiadau, a'r safonau a rennir sy'n ein galluogi i gydweithio'n well â threthdalwyr, eu cynrychiolwyr a'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn darparu system drethu deg i Gymru. Mae ein Siarter yn berthnasol i bawb yr ydym yn gweithio â nhw, gan gynnwys ein partneriaid cyflawni, er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyhoeddwyd ein Siarter ar 29 Mawrth 2018 ar ôl cyfnod arloesol o ymgysylltu ac ymgynghori, lle cawsom ymateb cadarnhaol i'r syniad o rannu casgliad o werthoedd. Gwnaethom brofi nifer o fersiynau drafft er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn deall ac yn croesawu ein bwriadau cydweithrediadol.


Deall sut i gyflawni'r gwerthoedd yn ein Siarter yn effeithiol oedd y catalydd ar gyfer datblygu ['Ein Dull'](#) a chreu ffordd Gymreig o wneud treth.

Yn ein blwyddyn gyntaf rydym wedi dangos pob gwerth ar y cyd drwy:

Gwerth	Yr hyn yr ydym wedi'i wneud
 <p>Diogel: gwarchod yr holl wybodaeth a pharchu cyfrinachedd.</p>	<p>Rydym wedi sefydlu rheolaethau cadarn ym maes rheoli gwybodaeth, yn enwedig wrth ddiogelu data trethdalwyr. Mae'r gwaith yn parhau i gryfhau'r rheolaethau, yn enwedig yn sgil y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.</p>
 <p>Cefnogol: creu canllawiau a rhoi cymorth pan fyddwch chi'n gofyn am help. Datblygu a defnyddio gwasanaethau digidol effeithiol.</p>	<p>Rydym wedi cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr ar ein trethi, ac rydym yn parhau i ddatblygu'r rhain, gan ymateb i sylwadau ac adborth cwsmeriaid. Rydym yn gwella'r system adborth ar ein gwefan er mwyn galluogi adborth cywir ar bob adran.</p> <p>Rydym yn darparu canllawiau hygyrch i ystod eang o randdeiliaid. Mae hyn yn bwysig er mwyn cael trethdalwyr gwybodus.</p> <p>Rydym yn datblygu offer eraill i gefnogi ein cwsmeriaid mewn meysydd allweddol. Gwnaethom gynnal digwyddiadau ymgysylltu i ddarparu hyfforddiant i gyfreithwyr a thrawsgludwyr er mwyn eu helpu i ffeilio'u ffurflenni'n hawdd ac yn gywir.</p> <p>Rydym wedi gwella ein systemau treth ac wedi cyflwyno gweminarau llwyddiannus ar gyfradd uwch y Dreth Trafodiadau Tir, ac rydym yn</p>

Gwerth	Yr hyn yr ydym wedi'i wneud
	<p>parhau i gynnig hyfforddiant i gefnogi ffeilio mewn meysydd cymhleth o'r dreth trafodiadau tir.</p> <p>Mae ein desg gymorth wedi casglu llawer iawn o wybodaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf ac rydym wedi cael adborth ardderchog ynghylch ansawdd ac amseroldeb yr ymatebion a ddarperir.</p> <p>Lansiwyd ein gwasanaeth barn treth, sydd wedi cael ei ganmol gan gyfreithwyr a thrawsgludwyr sy'n gwerthfawrogi'r cymorth y mae'r gwasanaeth hwn yn ei gynnig. Mae'r gwasanaeth hwn yn offeryn pwysig yn ein dull o alluogi trethdalwyr.</p>
<div data-bbox="292 891 564 1137" style="text-align: center;">  <p>Fair Teg</p> </div> <p>Teg: bod yn onest wrth ddelio â'n gilydd a chreu sefyllfa deg fel bod pob trethdalwr yn cael ei drin yn gyfartal. Mynd i'r afael ag efadu ac osgoi a defnyddio pwerau'n gyson a theg.</p>	<p>Rydym wedi defnyddio data a gwybodaeth i lywio'n dull o leihau risg treth ac wedi cymryd camau priodol a chymesur, gan gychwyn prosiectau mewn meysydd risg allweddol.</p> <p>Rydym yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau er mwyn galluogi pobl i dalu'r dreth gywir ar yr adeg gywir ac i ddatblygu ffyrdd o'i gwneud yn fwy anodd i bobl osgoi talu eu trethi.</p>
<div data-bbox="304 1447 608 1693" style="text-align: center;">  <p>Engaging Ymgysylltiol</p> </div> <p>Ymgysylltiol: cefnogi'r cyhoedd yng Nghymru i ddeall y system drethi ddatganoledig a chydweithio i'w datblygu er budd Cymru.</p>	<p>Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Thrysorlys Cymru i godi proffil trethiant datganoledig ymhlith y cyhoedd yng Nghymru.</p>

Gwerth	Yr hyn yr ydym wedi'i wneud
<div data-bbox="304 293 587 551" style="text-align: center;">  <p>Responsive Ymatebol</p> </div> <p>Ymatebol: gwrando ar safbwyntiau ein gilydd a bod yn agored yn ein sgysiau, gweithredu ar yr adborth a'r cyngor a roddir. Trin ein gilydd gyda pharch.</p>	<p>Mae gweithredu ar adborth gan drethdalwyr a chynrychiolwyr wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i ni yn ystod ein blwyddyn gyntaf. Datblygwyd ein system rheoli treth gan ganolbwyntio ar ein defnyddwyr. Yn ystod ein blwyddyn gyntaf o weithredu rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r system hon.</p> <p>Bydd y newidiadau hyn yn lleihau camgymeriadau ffeilio, yn gwella'n data ac, yn bwysig iawn, yn helpu ein defnyddwyr i lenwi ffurflenni treth yn effeithlon ac yn gywir. Mae hyn o gymorth i'r trethdalwr ac i ni, ac mae'n lleihau'r angen am gysylltu ar ôl i ffurflen dreth gael ei ffeilio. Mae hon yn enghraifft gadarnhaol ohonom yn gwrando ac yn ymateb i ofynion.</p> <p>Mewn perthynas â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, wrth ymateb i angen ac arfer cyffredin diwydiant, rydym wedi diwygio'r rheoliadau er mwyn caniatáu cynnwys uwchbridd yng nghwmpas y rhyddhadau.</p>
<div data-bbox="304 1137 587 1395" style="text-align: center;">  <p>Bilingual Dwyieithog</p> </div> <p>Dwyieithog: bod â'r hyder i gynnal ein busnes yn y Gymraeg ac yn Saesneg.</p>	<p>Rydym yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog ac yn cynnal ein busnes yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Rydym yn hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, gan alluogi ein staff i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn meithrin diwylliant lle mae pobl yn teimlo'n hyderus i siarad am dreth yn Gymraeg.</p>
<div data-bbox="304 1545 587 1803" style="text-align: center;">  <p>Accurate Manwl Gywir</p> </div> <p>Manwl Gywir: cydweithio i gael pethau'n iawn a'u cywiro lle bo angen, rhannu data a gwybodaeth fanwl gywir, bod yn rhesymol ofalus i osgoi camgymeriadau. Cadw cofnodion manwl gywir.</p>	<p>Rydym wedi adolygu ein penderfyniadau mewn ymateb i adborth ar ein system dreth, a phan fo camgymeriadau wedi'u gwneud rydym yn ceisio cymryd camau cymesur i gywiro hynny, gan weithio gyda threthdalwyr a chynrychiolwyr i gael pethau'n iawn.</p> <p>Rydym yn awyddus i gefnogi'r rhai sy'n dymuno defnyddio ein data. Rydym yn cyhoeddi ein data o dan faner Ystadegau Swyddogol, gan ddilyn amserlen reolaidd a gyhoeddir ymlaen llaw, fel bod y rhai sy'n defnyddio'n data yn gallu gwneud</p>

Gwerth	Yr hyn yr ydym wedi'i wneud
	hynny mewn ffordd dryloyw a chyda hyder yn ei natur ddiuedd a'i gywirdeb.
<div data-bbox="300 365 582 622" style="text-align: center;">  <p>Efficient Effeithlon</p> </div> <p data-bbox="153 678 724 786">Effeithlon: ymateb yn gyflym i'n gilydd, cyflwyno a phrosesu ffurflenni ar amser. Canfod ffyrdd i ni wella'r gwasanaeth.</p>	<p data-bbox="735 383 1434 745">Mae cyfreithwyr, trawsgludwyr a threthdalwyr wedi canmol yn gyson gyflymder ac ansawdd ein hymateb i ymholiadau a cheisiadau. Rydym wedi gwella ein gwasanaeth yn y meysydd lle cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwella. Rydym wedi gwneud camgymeriadau ac wedi dysgu wrth i ni fynd yn ein blaenau. O ganlyniad, rydym wedi gwella ein prosesau mewnol ac allanol gan ein bod wedi deall yr hyn sy'n gweithio orau i ni a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.</p>